

Agenda

Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC, Diwrnod 2 – Sesiwn gyhoeddus

Dyddiad y cyfarfod: 24 Mawrth 2022

Amser y cyfarfod: 9.00-16.05

Lleoliad:

Microsoft Teams:

Ymunwch ar eich cyfrifiadur neu ap symudol

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Neu ffoniwch (sain yn unig)

[+44 29 2105 5545,394037138#](tel:+442921055545394037138#) [Cymru, Caerdydd](#)

Rhif Adnabod Ffôn-gynadledda: 394 037 138#

Arsylwyr:

Amser

Eitem

9.00
(5 munud)

1. Agor y cyfarfod

- Croeso
- Datgan buddiannau
- Egluro'r dull o gynnal y cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

9.05
(5 munud)

2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r cofnod gweithredu.

9.10
(10 munud)

3. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.

9.20
(20 munud)

4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Crynodeb: NODI'r sefyllfa gyfredol a rhoi diweddariad i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol.

Cyfeirnod y papur: 22-03-B04

**9.40
(30 munud)**

5. Adroddiadau diweddaru'r Pwyllgorau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 10 Mawrth

Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – ni chynhaliwyd cyfarfod

Y Pwyllgor Cyllid – 10 Chwefror ac 11 Mawrth

Cyfeirnod y papur: 22-03-B05

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – ni chynhaliwyd cyfarfod

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau - 2 Mawrth

Cyfeirnod y papur: 22-03-B06

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – 1 Chwefror

Cyfeirnod y papur: 22-03-B07

Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd, y tu mewn a thu allan i unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd.

**10.10
(30 munud)**

6. Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Noddwr: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Cyflwynwyr: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol,

Perfformiad ac Asesu Strategol; Sarah Williams, Pennaeth

Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli'r Rhaglen; Sue

GINLEY, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio

Corfforaethol a Pherfformiad

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Chwarter 3

Cyfeirnod y papur: 22-03-B08

**10.40
(15 munud)**

Egwyl

**10.55
(20 munud)**

7. Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-22

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a

Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Steve Burton, Pennaeth Rheoli Pobl; Julia Allen,

Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol

Crynodeb: Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-22

Cyfeirnod y papur: 22-03-B10

**11.15
(20 munud)**

8. Adroddiad Chwarter 3 Lles, Iechyd a Diogelwch

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a

Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch

Crynodeb: NODI yr Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 3.

Cyfeirnod y papur: 22-03-B11

**11.35
(30 munud)**

9. Is-grŵp Lles Llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol, Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu; Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau

Cyflwynwyr: Fen Turner, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Strategaeth Adnoddau Naturiol a Lles; Bill Purvis, Rheolwr Iechyd, Mynediad at Addysg a Hamdden; Ruth Jenkins, Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol

Crynodeb: CYMERADWYO Is-grŵp Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyfeirnod y papur: 22-03-B12

**12.05
(10 munud)**

10. Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Noddwr: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Crynodeb: CYMERADWYO y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol gan y Bwrdd Busnes Gwasanaethau Corfforaethol

Cyfeirnod y papur: 22-03-B16

**12.15
(35 munud)**

11. Strategaeth Ddigidol

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol

Cyflwynydd: Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol; Heledd Evans, Arweinydd y Tîm Gwasanaethau Digidol; Helen Wilkinson, Rheolwr, Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd; Christopher Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth

Crynodeb: CYMERADWYO y Strategaeth Ddigidol a NODI y diweddariad am y Prosiect Peilot Gwastraff Peryglus

Cyfeirnod y papur: 22-03-B13

**12.50
(70 munud)**

Cinio

**14.00
(30 munud)**

12. Adolygiad o Ddiogelwch Coedwigaeth

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol; Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Cyflwynwyr: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch; Cyflwynwyr: Elsie Grace; Elsie Grace, Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy; Katherine Gostick, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Crynodeb: TRAFOD y diweddariad am yr adolygiad o ddiogelwch coedwigaeth

Cyfeirnod y papur: 22-03-B14

**14.30
(45 munud)**

13. Adolygiad o ddull CNC o reoleiddio saethu a dal adar gwyllt: Trwyddedau Cyffredinol

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynwyr: Sarah Wood, Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau; Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu
Yn bresennol: Adam Cole-King, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Polisi Bioamrywiaeth; Patrick Lindley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynefinoedd a Rhywogaethau Daearol; Katherine Morris, Prif Gy nghorydd, Gwasanaethau Cyfreithiol

Crynodeb: CYMERADWYO y dull o roi trwyddedau cyffredinol.

Cyfeirnod y papur: 22-03-B15

**15.15
(5 munud)**

14. Rhagolwg y Bwrdd

Noddwr: Syr David Henshaw
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Cyfeirnod y papur: 22-03-B17

**15.20
(5 munud)**

15. UNRHYW FATER ARALL

Diwedd cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd

**15.25
(10 munud)**

Egwyl

**15.35
(30 munud)**

16. Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus

16.05

Diwedd y cyfarfod

Cofnodion heb eu Cadarnhau

Teitl y Cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus Pawb yn Bresennol dros Microsoft Teams
Dyddiad y Cyfarfod:	28 Ionawr 2022
Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:	Syr David Henshaw (Cadeirydd) Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd Karen Balmer Catherine Brown Julia Cherrett Geraint Davies Paul Griffiths Zoë Henderson Yr Athro Calvin Jones Mark McKenna Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby
Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (yr holl eitemau) Julia Allen, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol (Eitem 6) Lyn Williams, Cynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl (Eitem 6) Elsie Grace, Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy (Eitem 8) Vernon Lambert, Rheolwr Caffael (Eitem 8) Ian Mowatt, Rheolwr CMSS (Eitem 8) Andrew Wright, Uwch Cynghorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion (Eitem 9) Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir (Eitem 9) Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru (Eitem 11) Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu (Eitem 11) Mark Squire, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy (Eitem 11) Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol (Eitem 11)
Arsyllwyr CNC:	Dim

Arsyllwyr Danielle Phillips, Chwarae Teg
Cyhoeddus: Kim Waters
Lucy O'Neill
Rachel Evans, Y Gynghrair Cefn Gwlad
Mark Hilleard, Llywodraeth Cymru (Eitem 9)

Datganiadau: Dr Rosie Plummer – Aelod o Fwrdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolwr Plantlife, Ymddiriedolwr Canolfan y Dechnoleg Amgen
Yr Athro Calvin Jones – Aelod o'r Pwyllgor Llywio, Skyline

Ymddiheuriadau: Steve Burton, Pennaeth Rheoli Pobl (Eitemau 6 a 7)

Ysgrifenyddiaeth: Jocelyn Benger
Natalie Williams

Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y Cyfarfod a chroesawu pawb. Gwnaed datganiadau o fuddiant fel y nodwyd uchod.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Tachwedd.

2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus

3. Adolygwyd a chytunwyd ar y cofnod gweithredu. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ddiweddariad ar Gam Gweithredu 10, a oedd bellach wedi'i gyflawni gan fod nodyn briffio wedi'i ddsbarthu i aelodau'r Bwrdd ar y mater hwn.

Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ar yr Adferiad Gwyrdd. Parhaodd y Grŵp i gyfarfod ac roedd yn gweithio drwy rôl y Grŵp ar ôl y pandemig. Cefnogwyd parhad y Grŵp gan Weinidogion.
5. Roedd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu wedi mynychu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd i roi tystiolaeth ar Waith Craffu Blyneddol CNC. Ystyriwyd amrywiaeth o faterion ac mae sesiwn arall wedi'i chynllunio ar ansawdd dŵr ar gyfer 3 Chwefror.
6. Roedd Ysgrifennydd y Bwrdd wedi anfon arolygon ar sgiliau'r Bwrdd a byddai'n cael mewnbwn y Bwrdd ar y meini prawf ar gyfer cynnwys eitemau ar yr agenda gyhoeddus neu breifat.

Eitem 4: Adroddiad gan y Prif Weithredwr

7. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen, a thynnwyd sylw at yr eitemau canlynol. Y mater allweddol i'r Tîm Gweithredol a Grŵp y Tîm Arwain (LTG) oedd yr Ymarfer Sylfaenol a'r Gyllideb. Trafodwyd hyn yn fanwl yng nghyfarfod preifat y Bwrdd y diwrnod cynt.

Cyflawnwyd y safon ryngwladol ar gyfer Rheoli Iechyd a Diogelwch, ISO 45001, yn dilyn cyfnod helaeth o waith gan y tîm Lles, Iechyd a Diogelwch (WHS) a thîm ehangach CNC. Roedd hon yn garreg filltir bwysig ac yn gyflawniad sylweddol, er y nodwyd bod gwaith ar WHS yn broses barhaus a oedd yn cael ei chefnogi a'i herio gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau.

8. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Gofynnwyd cwestiynau am lefelau absenoldeb salwch oherwydd Covid. Roedd sbigyn wedi'i gofnodi ychydig cyn a thros gyfnod y Nadolig ond, erbyn hyn, mae lefelau absenoldeb salwch wedi dychwelyd i'r arfer. Roedd y Grŵp Ymateb ac Adolygu Digwyddiadau Strategol (SIRRG) yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn annog staff i roi gwybod am heintiau Covid er mwyn monitro'r sefyllfa.
9. Diolchwyd i'r tîm am ei gyfraniad cadarnhaol at Banel COP26 Cymru.
10. Nododd aelodau'r Bwrdd Adroddiad at Wraidd y Mater Coed a Phren Llywodraeth Cymru, ond tynnwyd sylw at y ffaith mai prin oedd y sôn am ymestyn adfywio naturiol a phwysigrwydd hyn mewn perthynas â bioamrywiaeth ac iechyd coed. Byddai'n bwysig cynnwys hyn mewn trafodaethau ar greu coetiroedd ochr yn ochr â phlannu coed. Nodwyd y byddai hyn hefyd yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd. Trafodwyd argymhellion yr Adroddiad at Wraidd y Mater Coed a Phren a chwestiynwyd yr atebolrwydd a'r cyfle i ddylanwadu ar y rhain.
11. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol wedi cynrychioli CNC yn yr Adroddiad at Wraidd y Mater Coed a Phren ac wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ddiweddaraf. Cadarnhawyd bod gan CNC lais cryf ym mhob un o'r grwpiau sy'n gweithio ar yr argymhellion, felly roeddent yn cael y cyfle i gyfrannu at drafodaethau ar blannu coed priodol a'r cysylltiad â llifogydd a bioamrywiaeth. Roedd CNC yn arwain ar Gam Gweithredu 39 ar y dull o werthu pren amgen a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol y gofynnwyd iddi gadeirio'r Grŵp Buddsoddi mewn Creu Coetir. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu hymgorffori fel rhan o'r atebion wrth symud ymlaen.
12. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am i'r broses o bwysu a mesur y gwaith hwn gael ei chynnwys yn yr adroddiadau i'r Bwrdd. Nodwyd y byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â'r trafodaethau ar y pum maes blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

CAM GWEITHREDU: Diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn argymhellion Adroddiad at Wraidd y Mater Coed a Phren Llywodraeth Cymru i'w cynnwys ar Ragolwg y Bwrdd a'u trafod ar y cyd â'r pum maes blaenoriaeth.

13. Roedd aelodau'r Bwrdd yn poeni am lefel y cydweithio â thirfeddianwyr ar blannu coed. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, gan gynnwys drwy'r SFS a'r Goedwig Genedlaethol, a chael barn y cyhoedd. Byddai'r wefan yn cael ei diweddarau i gynnwys cyngor ac arweiniad ar blannu coed. Mynegodd aelodau'r Bwrdd bryderon ynghylch gwerthu ffermydd ar gyfer plannu coed a bod yr SFS yn annhebygol o fod ar waith tan 2025. Byddai angen ymgysylltu, yn enwedig ar faterion bioamrywiaeth a chynnydd posibl mewn coedwigaeth fasnachol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n helaeth ar y mater hwn ac yn ceisio gwella'r broses o'r dechrau i'r diwedd. Byddai trafodaethau gydag Undebau Ffermwyr ar gyngor ac arweiniad, a sgysiaiu gyda grwpiau rhanddeiliaid, yn cael eu cynnal.

14. Estynnodd aelodau'r Bwrdd longyfarchiadau i'r staff a oedd wedi ennill statws proffesiynol Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF). Croesawyd yr achrediad gan ICF a nodwyd y gallai hyn fod yn rhan allweddol o'r strategaeth denu a chadw staff wrth recriwtio.
15. Trafodwyd y Rhaglen Natur Greadigol mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Ariennir y Rhaglen gan CCC, yn dilyn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng CNC a CCC. Cadarnhawyd y byddai hyn yn cyd-fynd â Natur a Ni.

Eitem 5: Adroddiadau Diweddarau'r Pwyllgorau

16. Cyflwynodd Catherine Brown, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr. Diolchwyd i'r Pwyllgorau eraill am eu gwaith yn dilyn y dull newydd o graffu ar risgiau a chydweithio ar yr Adroddiadau Archwilio Mewnol. Nodwyd hyn fel arwydd o arfer da gan CNC. Roedd ARAC yn canolbwyntio ar y risgiau mewn perthynas â rheoli contractau ac roedd wedi gofyn am i fwy o waith gael ei wneud ar liniaru'r risgiau yn y cyfamser tra bod y tîm llawn a'r penderfyniad yn cael eu rhoi ar waith. Gofynnodd ARAC i'r Bwrdd fod yn fwy clir ynghylch y risgiau yn y maes hwn, ac roedd y tîm yn llunio hyn.
17. Cyflwynodd Peter Rigby, Cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth, grynodedb o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, a fu'n trafod tri phrif bwnc. Ystyriwyd y mater mewnol ynghylch sut y cafodd y gwahanol raglenni tystiolaeth eu blaenoriaethu gyda chyfyngiadau o ran amser ac adnoddau. Roedd sgwrs dechnegol wedi'i chynnal ynghylch mesurau Ansawdd Dŵr. Trafodwyd casgliad mawr CNC o adroddiadau tystiolaeth a sut y gellid sicrhau bod y rhain ar gael yn ehangach. Ystyriwyd lleoliadau a chyfleoedd i bobl ifanc gefnogi CNC, er enghraifft, ym maes gwyddoniaeth gymdeithasol. Nodwyd bod rhwystrau i ddatblygu partneriaethau a lleoliadau gyda phrifysgolion. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol i drafod hyn all-lein ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol i gyfarfod i drafod y rhwystrau i leoliadau ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

18. Cyflwynodd Syr David Henshaw, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr. Roedd disgwyl yr adroddiad diweddarau ar Grantiau. Cydnabuwyd cymhlethdod y gyfundrefn Grantiau yng Nghymru, felly byddai'n ddefnyddiol cael un porth ar gyfer pob cais. Roedd y dull o ymdrin â hyn yn cael ei ddatblygu. Roedd contract wedi'i ddyfarnu i ddwyn ynghyd y gwaith ar Grantiau. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.
19. Cyflwynodd Julia Cherrett, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC), yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr. Cafwyd trafodaeth dda ar y Rhaglen Gweithredu Adfer ac Adolygu, ac roedd yr adroddiad Archwilio Mewnol wedi tawelu meddwl y Pwyllgor. Trafodwyd amseru cau'r rhaglen. Ystyriwyd Risg Strategol SR02 yn fanwl a chytunwyd y byddai sesiwn ar wahân o'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn cael ei threfnu ar y mesurau, y targedau a'r ymgysylltiad cymunedol cyn trafodaeth lawn ar y materion hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Cafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am sgiliau a chynllunio ar gyfer olyniaeth, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion ynghylch datblygu modiwl Llifogydd. Cafwyd trafodaeth ar Ardaloedd Draenio Mewnol. Nodwyd bod rhai problemau wedi codi ynghylch safon y gwaith, a chroesawyd Archwiliad Mewnol yn y maes hwn.

20. Cyflwynodd Zoe Henderson, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC), yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr. Tynnwyd

sylw at y gwaith ar y Strategaeth Pobl, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chynllunio'r gweithlu yn yr adroddiad. Cafwyd trafodaeth fanwl ar wraidd y broblem o ran marwolaethau ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru (WGWE) yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd y tîm yn adolygu hyn a byddai'n cyflwyno eitem ar ddiogelwch yn y sector coedwigaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Darparwyd diweddariad ac arddangosiad da ar y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) ac awgrymwyd y byddai hon yn eitem werthfawr ar gyfer agenda'r Bwrdd yn y dyfodol. Trafodwyd Penodeion Cyfnod Penodol (FTAs) ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar broses mewn perthynas â hyn.

21. Cyflwynodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC), yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith ers y cyfarfod diwethaf ym mis Hydref. Byddai'r cyfarfod ar 1 Chwefror yn cynnwys eitemau ar y Rhaglen Cyflawni Tirweddau Dynodedig a Safleoedd Gwarchoddedig, a Risg Strategol SR05. Ffocws allweddol i'r cyfarfod fyddai trafodaeth sylweddol ar y canllawiau gweithdrefnol drafft cychwynnol ar gyfer Dynodi Tirwedd Statudol a'r trosolwg yng nghyd-destun ymgynghoriad Defra a'r ymateb i'r Adolygiad o Dirweddau. Roedd disgwyl cadarnhad ffurfiol o gyllid ar gyfer y maes gwaith hwn.

Eitem 6: Gyda'n Gilydd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant CNC

Yn bresennol: Julia Allen, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol; Lyn Williams, Cynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl

22. Cyflwynwyd yr eitem gan Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol. Yn dilyn trafodaeth y Bwrdd ym mis Medi ar flaenoriaethau ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, roedd gwaith wedi'i wneud ar ddatblygu'r Strategaeth. Cafwyd mewnbyn hefyd gan PaRC a'r Grŵp Llywio a oedd yn cynnwys aelodau'r Bwrdd. Roedd yr elfennau arwain wedi'u plethu i'r Strategaeth, a chwblhawyd y drafft a'r amcanion. Byddai'r camau nesaf yn golygu nodi'r camau gweithredu i symud ymlaen, cyfathrebu ac ymgysylltu ar hyn.
23. Cafodd y Strategaeth Gyda'n Gilydd ei hystyried gan y Bwrdd. Diolchwyd i'r tîm am eu gwaith ar hyn a'r ymdrechion i'w integreiddio â chenhadaeth a gwerthoedd cyffredinol CNC. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut y byddai'r risgiau'n cael eu lliniaru. Cadarnhawyd y byddai angen darparu llinell sylfaen ar gyfer y risg o ran adnoddau a sicrhau bod yr agenda'n cael ei datblygu fel blaenoriaeth. Byddai atebolrwydd cyfun gan y Tîm Gweithredol, gydag adroddiadau ar gynnydd yn cael eu cyflwyno drwy PaRC. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyfrifoldeb ar y cyd ar draws y sefydliad, a byddai angen cyfleu hyn i'r staff.
24. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y dangosyddion yn ymwneud â recriwtio, ond argymhellwyd y dylid monitro cynnydd yn ystod cyflogaeth hefyd. Nodwyd bod ystyried y cwsmer yn y Strategaeth yn bwysig. Disgrifiwyd gwaith yr Hyb Cwsmeriaid, a byddai'r gwaith ar y wefan yn parhau. Argymhellodd aelodau'r Bwrdd y dylid datblygu elfen gryfach ar fod yn niwrowahanol. Cymeradwyodd y Bwrdd Gyda'n Gilydd yn amodol ar gryfhau'r meysydd hyn.

WEDI'I GYMERADWYO: Gyda'n Gilydd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant CNC yn amodol ar fân ddiwygiadau

Eitem 7: Strategaeth Pobl CNC

25. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol gefndir a throsolwg o'r Strategaeth Pobl, a oedd yn cyd-fynd â Gyda'n Gilydd. Datblygwyd hyn gyda mewnbyn gan grŵp ymgysylltu â staff, y Bwrdd Pobl a'r Tîm Gweithredol. Profwyd

blaenoriaethau gyda'r grwpiau hyn a'r PaRC, a datblygwyd cyfeiriad strategol ar y cynnig i staff a disgwyliadau CNC. Y camau nesaf fyddai bwrw ymlaen â chynllun i ddatblygu'r Strategaeth ac ymgysylltu â staff.

26. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y cynnydd ar y Strategaeth Pobl. Argymhellwyd y dylid cryfhau'r elfen sy'n ymwneud â grymuso staff i wneud penderfyniadau. Gwnaed sylwadau hefyd ynghylch y pwysau ar reolwyr canol yn cael ei adlewyrchu yn y strategaeth ac arweinyddiaeth 'gymwys' yn hytrach na 'hyderus' fel blaenoriaeth. Byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yn trafod hyn ymhellach all-lein gydag aelodau'r Bwrdd. Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Pobl yn amodol ar yr argymhellion ychwanegol hyn.

WEDI'I GYMERADWYO: Strategaeth Pobl CNC yn amodol ar fân ddiwygiadau

Eitem 8: Pobl, Planed a Ffyniant a Diweddariad Gwerth Cymdeithasol

Cyflwynwyr: Elsie Grace, Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy; Vernon Lambert, Rheolwr Caffael; Ian Mowatt, Rheolwr CMSS

27. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol yr eitem, a fyddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ar werth cymdeithasol a'r dull Pobl, Planed a Ffyniant. Caffaelodd CNC tua £100 miliwn o wasanaethau bob blwyddyn, felly cafodd y dull caffael effaith sylfaenol.
28. Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy gyflwyniad ar y dull Pobl, Planed a Ffyniant. Tynnwyd sylw at elfen allweddol y dull Pobl, Planed a Ffyniant o fewn y Strategaeth Fasnachol. Roedd manteision y dull Pobl, Planed a Ffyniant yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oedd hyn yn cael ei fesur mewn ffordd safonol, felly'r nod oedd creu dull cyfannol ar draws CNC. Roedd methodoleg newydd yn cael ei datblygu i fesur y tri phrif faes, sef mynd allan (caffael), dod i mewn (megis cytundebau partneriaeth) a chanlyniadau (a ddarperir gan CNC). Byddai metrigau'n cael eu halinio ar draws y tri maes ac mewn ffordd safonol ar draws y sefydliad. Y nod fyddai dangos cydbwysedd rhwng Pobl, Planed a Ffyniant ar draws Ystâd CNC. Roedd y Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy yn cymryd rhan mewn ymarfer caffael gyda Llywodraeth Cymru ar fesur Pobl, Planed a Ffyniant mewn coedwig gymunedol, a byddai'r canlyniadau'n bwydo i mewn i'r ymarfer, ynghyd â thystiolaeth a gasglwyd am yr hyn a oedd yn cael ei fesur ar hyn o bryd ledled y busnes a sut y defnyddiwyd y data hwn. Y bwriad oedd i hyn ddod i ben ym mis Mehefin ac, ar ôl hynny, byddai'r llawlyfr yn cael ei ddatblygu a'r dull gweithredu'n cael ei gyflwyno fesul cam.
29. Rhoddodd y Rheolwr Caffael gyflwyniad ar y dull caffael, a oedd yn cyd-fynd â Llywodraeth Cymru a'i datblygiad o ran gwerth cymdeithasol gan ddefnyddio Fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cymru a'r Porth Gwerth Cymdeithasol. Roedd cysondeb ledled Cymru o ran cyflawni gwerth cymdeithasol yn cael ei ddatblygu. Esboniwyd y dull Pobl, Planed a Ffyniant o ymdrin â chynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol drwy gylch bywyd caffael a rhoddwyd enghraifft. Disgrifiwyd Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau CNC a'i rôl o ran darparu a monitro. Rhannwyd yr ymrwymadau Pobl, Planed a Ffyniant drwy gynlluniau pilot caffael a'r manylion am hyn. Disgrifiwyd y gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â chyflenwyr a rhoddwyd enghreifftiau. Ei nod oedd creu Themâu, Canlyniadau a Mesurau sy'n benodol i CNC yn seiliedig ar y Themâu, Canlyniadau a Mesurau yng Nghymru i ganolbwyntio ar y prif dargedau cyflawnadwy a fyddai'n bodloni amcanion corfforaethol CNC a chipio Pobl, Planed a Ffyniant a gwerth cymdeithasol.
30. Trafododd y Bwrdd gynnwys y cyflwyniadau. Croesawodd aelodau'r Bwrdd ddull safonol o fewn y sefydliad ond cydnabu anawsterau posibl wrth ddefnyddio dull safonol y tu allan i

CNC. Byddai'n bwysig sicrhau bod cwmnïau llai yn gallu manteisio ar gyfleoedd a bod pawb yn cael cyfle teg. Nodwyd y byddai'r trydydd sector eisoes yn cyflawni ar werth cymdeithasol, a dylid ystyried hyn wrth ddyfarnu contractau. Codwyd yr enghraifft o leihau allyriadau carbon fel maes lle byddai angen ystyried y mesur a'r effaith yn llawn. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at y materion sy'n ymwneud â phlisma a monitro contractau ar ôl i'r rhain gael eu dyfarnu.

31. Gofynnwyd a oedd gan bob un o'r meini prawf Pobl, Planed a Ffyniant sgôr gyfatebol. Er i'r Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy gadarnhau nad oedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i un o'r meini prawf Pobl, Planed a Ffyniant, roedd y Tîm Gweithredol wedi cydnabod bod dewisiadau i'w gwneud, a gallai mwy o bwyslais ar y meini prawf "planed" fod yn briodol mewn rhai achosion. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ar werth cymdeithasol gyda chyflenwyr ac roedd y tîm yn gweithio gyda Busnes Cymru.

Eitem 9: Diweddariad ar Iechyd Coed gan gynnwys Cyflwyniad ar *Phytophthora pluvialis*

Cyflwynwyr: Andrew Wright, Uwch Gyngorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion; Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir

32. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr eitem. Roedd ARAC wedi nodi y dylid cynnwys achosion o glefydau fel risg sy'n dod i'r amlwg. Roedd y risg yn cael ei rheoli ar hyn o bryd drwy Gofrestr Risg y Bwrdd Busnes, ond roedd a oedd angen ei uwchgyfeirio i'r Tîm Gweithredol yn cael ei adolygu. Roedd y tîm yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn Llywodraeth Cymru, ar *Phytophthora pluvialis* (*P. pluvialis*) a'r Ffliw Adar. Roedd mecanweithiau ar waith gyda Llywodraeth Cymru pan oedd achosion o glefydau'n cael eu hamau neu eu nodi.
33. Rhoddodd yr Uwch Gyngorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion, gyflwyniad ar rôl y tîm Iechyd Coed gan ddarparu trosolwg strategol o Iechyd coed yn y sefydliad ehangach, a diweddariad cyffredinol ar blâu a chlefydau yng Nghymru, a fyddai'n rhoi'r achosion o *P. pluvialis* yn eu cyd-destun. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn plâu a chlefydau, a disgrifiwyd rhai o'r rhesymau dros hyn mewn perthynas â mewnfôrion a newid hinsawdd. Esboniwyd proses tri cham y DU ar gyfer rheoli plâu a chlefydau newydd a rôl CNC yn hyn o beth. Tynnwyd sylw at waith CNC gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Forest Research, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Comisiwn Coedwigaeth. Darparwyd enghreifftiau o blâu a chlefydau presennol. Roedd y tîm yn gweithio'n agos gyda Forest Research a'r timau Stiwardiaeth Tir i ddeall yr effeithiau a gweithio tuag at ffyrdd o annog gwydnwch.
34. Cyflwynodd yr Uwch Gyngorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion, yr wybodaeth ddiweddaraf am yr achosion o *P. pluvialis*. Darparwyd cefndir y clefyd a sut y cafodd ei adnabod yng Nghoedwig Dyfi, Gwynedd. Roedd saith safle ychwanegol bellach wedi'u nodi a rhannwyd map o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt. Disgrifiwyd yr effaith ar y coed. Rhannwyd y parthau pennu ffiniau blaenoriaethau lle'r oedd gwaharddiad ar symudiadau mewn grym. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried y dull strategol o ymdrin â pharthau pennu ffiniau blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd a nodwyd yn ddiweddar. Esboniwyd y camau nesaf a oedd yn cynnwys archwilio safleoedd ehangach, arolygon manwl, rheoleiddio a chwmpo coed ar ôl cytuno ar yr hysbysiad statudol.
35. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd sut y byddai effaith clefydau yn dylanwadu ar y dull polisi presennol o blannu coed yn gyflym. Cadarnhaodd yr Uwch Gyngorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion, y byddai coedwig newydd yn cael ei chyflwyno yn unol â Safonau Coedwigaeth y DU. Cydnabuwyd y gallai fod angen mwy o waith ar amrywiaeth rhywogaethau a gofynion llymach ar gyfer ymgeiswyr sy'n bwriadu plannu un rhywogaeth. Rhoddodd y Pennaeth Stiwardiaeth Tir yr wybodaeth ddiweddaraf am straen coed a

phwysigrwydd teneuo coed i wella gwydnwch, a thynnodd sylw at effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a sychder ar goed clystyrog.

36. Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd effaith plâu a chlefydau ar SMNR (Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy) ar draws ystod o feysydd, gydag effeithiau'n cael eu nodi ar yr economi, y dirwedd, iechyd a diogelwch a hamdden. Tynnwyd sylw at y defnydd posibl o wyddoniaeth dinasyddion wrth fonitro a hysbysu. Dywedodd yr Uwch Gynghorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion, fod hon yn sefyllfa sy'n dod i'r amlwg a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwil i'r effaith ar rywogaethau coed eraill a oedd yn cael ei chynnal gan Forest Research. Trafodwyd effaith y newid yn yr hinsawdd ar blâu a chlefydau sy'n dod i'r amlwg a nodwyd bod Prifysgol Caergrawnt yn gweithio ar fodelu patrymau tywydd o'r blynyddoedd diwethaf.
37. Trafodwyd y costau sy'n gysylltiedig â mesurau clefyd coed ynn. Hysbyswyd aelodau'r Bwrdd bod tystiolaeth bod monoddiwyllianau yn wynebu mwy o risg, ond bod rheolaeth briodol yn bwysig, megis teneuo, cwmpo coed yn glir ac ailstocio. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at ddirywiad derw aciwt. Awgrymwyd y gellid defnyddio Datganiadau Ardal i gipio'r materion hyn. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at bwysigrwydd cyfathrebu a galluogi cymunedau i gael mynediad at wybodaeth a datblygu dealltwriaeth o'r materion hyn.
38. Gofynnwyd am bapur Bwrdd ar gyfer y cyfarfod nesaf a fyddai'n cynnwys pwysu a mesur sefyllfa coedwigaeth, a materion a phwysau ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ystyried y dull o adrodd yn rheolaidd.

CAM GWEITHREDU: Papur Bwrdd i'w gynhyrchu ar gyfer y cyfarfod nesaf i gynnwys pwysu a mesur ar sefyllfa coedwigaeth, a materion a phwysau ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ystyried y dull o adrodd yn rheolaidd.

Eitem 10: Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

39. Rhoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd drosolwg o'r newidiadau arfaethedig, a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r eitem ar Iechyd Coed ac a fyddai'n hwyluso gallu CNC i gyflwyno hysbysiad yn caniatáu symud deunydd mewn parth pennu ffiniau blaenoriaethau.
40. Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau i'r SaLS fel y nodir yn y papur.

WEDI'I GYMERADWYO: Newidiadau i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS) gan y Bwrdd Busnes Rheoleiddio.

Eitem 11: Deilliannau Trafodaethau Strategol

Cyflwynwyr: Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru; Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Mark Squire, Rheolwr Dŵr yn Gynaliadwy

41. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr eitem, a fyddai'n tynnu ar y themâu o'r trafodaethau strategol ar wahân ac yn eu cymhwyso i fater ansawdd dŵr. Roedd thema gref wedi dod i'r amlwg o ran gweithio gydag eraill ac annog rhannu gydag eraill i chwalu camdybiaethau, newid ymddygiadau a derbyn help. Byddai cyfle i drafod pa gyfraniad y gallai CNC fod am ei wneud yn y dyfodol.
42. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru gyflwyniad ar yr heriau a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol a'r dull o symud ymlaen mewn ffordd integredig. Disgrifiwyd y meysydd gwaith cysylltiedig. Pwysleiswyd pwysigrwydd gweithio gyda chymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid. Disgrifiwyd trosolwg o'r dull o fynd i'r afael â

stormydd, a oedd yn cynnwys cydweithio â phartneriaid a bod yn agored i faterion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, a phwysleisio dull cydgyfrifoldeb. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag Ofwat ar sicrhau'r metrigau cywir. Byddai dull SMNR o gynllunio ansawdd dŵr yn cael ei fabwysiadu, gan ystyried cwsmeriaid ac amgylchedd Cymru gyda'i gilydd. Cyflwynwyd diagram yn dangos cymhlethdod y materion cysylltiedig. Rhannwyd gwaith Llywodraeth Cymru a disgrifiwyd y camau nesaf. Byddai rhaglen yn cael ei datblygu ar draws timau i integreiddio rheoli tir a dŵr. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 9 Chwefror i gytuno pa arbenigeddau ac adnoddau y byddai eu hangen i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen hon.

43. Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys y cyflwyniad. Nodwyd y byddai angen cynnwys y Weinyddiaeth Materion Gwledig fel rhan o'r dull. Nodwyd pwysau cyhoeddus dros ollyngiadau amaethyddol. Tynnwyd sylw at y cynnydd a wnaed gan Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol. Cydnabuwyd bod angen datblygu'r gwaith ar hyn. Pwysleisiwyd pwysigrwydd tîm Llaeth CNC a chodwyd pryderon ynghylch effaith rolau FTA ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y tîm.

44. Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd bwysigrwydd mabwysiadu dull gweithredu llawn sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cydnabuwyd bod ffynhonnell gyfoethog o dystiolaeth a oedd wedi'i chasglu gan CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd dros y 30 mlynedd diwethaf. Byddai angen edrych yn empirig ar hyn er mwyn datblygu sylfaen i'w defnyddio wrth symud ymlaen. Awgrymwyd y byddai angen seminar dau i dri diwrnod sylweddol i adolygu hyn a bwydo i mewn i'r llywodraethu sy'n ymwneud â'r mater hwn. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Athro Steve Ormerod a'r Athro Peter Rigby gyfarfod i drafod y broses ar gyfer bwrw ymlaen â hyn.

CAM GWEITHREDU: Yr Athro Steve Ormerod a'r Athro Peter Rigby i gyfarfod i drafod y broses ar gyfer datblygu'r dull o ymdrin â'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Ansawdd Dŵr.

45. Ystyriwyd yr adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu'r dull arfaethedig. Byddai angen deall yr amlen adnoddau yn gyffredinol, gan edrych ar lifoedd cyllid i sicrhau eu bod yn symud yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Eitem 12: Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

46. Rhoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd drosolwg o'r eitem. Roedd fersiwn flaenorol Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru wedi'i llofnodi yn 2014. Roedd y fersiwn wedi'i diweddarau wedi bod ar y gweill ers tua dwy flynedd, a diolchwyd i staff a oedd wedi gweithio ar hyn yn ystod y cyfnod hwnnw. Tynnwyd sylw at y gwahaniaethau allweddol. Roedd gweddill yr eitemau a nodwyd yn y papurau wedi'u datrys ers eu cyhoeddi ac roedd pob eitem wedi cael sylw, ac argymhellwyd ei gymeradwyo yn ddi-oed.

47. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd y ddogfen ac awgrymwyd mân ychwanegiad i'r testun yn adran 3.4. Cymeradwyodd y Bwrdd Ddogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru.

WEDI'I GYMERADWYO: Y Ddogfen Fframwaith newydd rhwng CNC a Llywodraeth Cymru.

Eitem 13: Rhagolwg y Bwrdd

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

48. Rhoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am eitem ychwanegol i'r Rhagolwg ers ei gyhoeddi ar y Prosiect Peilot Gwastraff Peryglus.

49. Nodwyd y byddai eitem y Strategaeth Ddigidol yn un o bwysu a mesur y sefyllfa yn hytrach nag yn un i'w chymeradwyo.

Eitem 14: UNRHYW FATER ARALL

50. Roedd yr eitemau canlynol wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod i'w cymeradwyo neu er gwybodaeth drwy ohebiaeth a sylwadau drwy eithriad.

WEDI'I GYMERADWYO: Strategaeth Gwrth-dwyll 2022–26

WEDI'I GYMERADWYO: Ardollau arbennig, ardrethi draenio a phraeseptau Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2022-23; awdurdodi gosod y sêl gyffredin yr Ardrethi Draenio Cymeradwy.

WEDI'I NODI: Cynnydd ar ymgorffori Datganiadau Ardal yng ngwaith CNC a gwaith pobl eraill i helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, sy'n cyd-fynd â'r adferiad gwyrdd a theg; y defnydd o Ddatganiadau Ardal wrth baratoi Asesiadau Llesiant sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Daeth cyfarfod y Bwrdd i ben -

Eitem 15. Sesiwn holi ac ateb cyhoeddus

51. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd.

52. Roedd Mr Gareth Wardell wedi cyflwyno cwestiwn ymlaen llaw. Darllenodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd y cwestiwn i'r Bwrdd; "Yn y llythyr a anfonwyd ar 20 Rhagfyr 2021 at Gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd y Senedd, mae Cadeirydd CNC yn datgan yn glir nad yw rheoleiddiwr amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio ei ymchwiliad ei hun i achosion o dorri cydymffurfiaeth â thrwyddedau gwaith trin dŵr gwastraff yng Nghymru. Gan wybod bod Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat eisoes yn cynnal ymchwiliad o'r fath yn Lloegr, pam nad yw Bwrdd CNC yn rhoi'r gorau i'w safiad gwag, hunanglodforus a hunanfodlon ac yn cyhoeddi heddiw ei benderfyniad i uno ag Asiantaeth yr Amgylchedd ac OFWAT, gan fod DCWW a Severn Trent Water yn gweithredu mewn rhannau o Gymru a Lloegr?"

53. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol, Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu. Roedd CNC wedi bod yn ymchwilio i'r mater hwn ers 2014 pan ddaeth i'r amlwg o'r wybodaeth yn dilyn rhaglen o osod monitorau parhaus ar ollyngiadau o Waith Trin Dŵr. Yn y cyfnod ers hynny, cymerwyd camau i unioni 32 o ollyngiadau carthion heb eu trwyddedu drwy'r broses Cynllun Rheoli Asedau (AMP) flaenorol (2015 i 2020); mae 37 arall yn destun ymchwiliad gyda disgwyliad yr ymdrinnir â'r rhain yn ystod y cyfnod AMP hwn h.y. erbyn 2025. Wrth i waith monitro mwy parhaus gael ei osod ar asedau Cwmniâu Dŵr, byddai CNC yn adolygu'r wybodaeth, yn deall achosion unrhyw ollyngiadau carthion heb eu trwyddedu ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu hunioni yn y broses AMP. Pe bai CNC yn teimlo nad oedd camau'n mynd rhagddynt yn ôl yr angen, byddai camau gorfodi yn cael eu hystyried. Y prif wahaniaeth rhwng dull gweithredu CNC a'r dull a ddefnyddir yn Lloegr, ac felly'r ymateb a roddwyd i Gadeirydd CCEIC a ddyfynnwyd gan Mr Wardell, oedd bod CNC wedi dechrau'r hyn sy'n cyfateb i'r ymchwiliadau sydd ar y gweill yn Lloegr yn 2014. Felly, nid oedd y dull hwn yn cael ei ddechrau o'r newydd. Byddai CNC yn gweithio'n agos gydag Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar yr ymchwiliadau yn Lloegr ac yn eu cynnwys yn null CNC hefyd, fel y gellid rhannu dysgu. Pe bai rhannu'r dysgu hwnnw'n golygu y byddai angen i CNC wneud rhywbeth gwahanol yng Nghymru, yna byddai hynny'n cael ei wneud. Roedd cynlluniau ar waith gydag Ofwat i weithio ar yr wybodaeth sy'n deillio o'r ymchwiliad yn Lloegr dros y mis nesaf. Roedd CNC bob amser

wedi gweithio'n agos gydag Ofwat a, bob blwyddyn, roedd yn dwyn cwmnïau dŵr i gyfrif yn erbyn mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt gan Ofwat a CNC, a byddai hyn yn parhau yng nghyfnod asesu perfformiad rhaglenni presennol AMP.

54. Byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei anfon at Mr Wardell, ac roedd cyfarfod gyda'r tîm yn cael ei drefnu. Nododd aelodau'r Bwrdd bwysigrwydd cyfathrebu'r ymateb i bawb sydd â diddordeb. Cytunwyd y byddai'n bwysig cyfathrebu'n glir ar y mater hwn.

- Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i ben -

Cyfarfodydd Bwrdd										
Rhif Cam G	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Nodwr Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
2	Cyhoeddus	26/11/2020	6	20	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i drafod â Phennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-ddwyrain, ynghylch cynnal trafodaeth â'r Bwrdd yn y dyfodol am y terfyn 4 awr ar ymateb i ddigwyddiadau.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	23/03/2022	Parhaus	Ychwanegwyd at y rhestr o eitemau trafod strategol posibl, cyflwyniadau Lle, sesiynau Tystiolaeth ac ymweliadau â safleoedd. Awgrymir mai dyma ddylai fod yn eitem drafod strategol ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi ac y dylem ohirio cau pen y mwdwl ar themâu'r trafodaethau strategol eraill o'r herwydd. Ychwanegwyd at Ragolwg Tachwedd. I'w ystyried fel rhan o'r eitem ar themâu trawsbynciol y Cyflwyniad Lle a symudwyd i gyfarfod mis Mai 2022.
3	Cyhoeddus	24/03/2021	4	10	Clare Pillman, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i holi'r aelodau i weld pwy sydd ar gael ar gyfer Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Gorffennaf i ganolbwyntio ar fyfyrion a heriau'r dyfodol ar ôl Covid.	Ysgrifenyddiaeth	07/07/2022	Parhaus	Mae'r Cadeirydd wedi cadarnhau y bydd Diwrnodau Datblygu'r Bwrdd yn cael eu gohirio hyd nes y gellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Trefnwyd Diwrnod Datblygu nesaf y Bwrdd ar gyfer 07/07/22.
9	Cyhoeddus	28/01/2022	4	12	Clare Pillman, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn argymhellion adroddiad at wraidd y mater Llywodraeth Cymru ar goed a phren i'w cynnwys ar Ragolwg y Bwrdd a'i drafod ar y cyd â'r pum maes blaenoriaeth.	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol	04/03/2022	Parhaus	Trafodaeth ar goedwigaeth yng nghyfarfod bwrdd mis Mawrth i helpu i lunio sut a phryd y bydd hyn yn digwydd
10	Cyhoeddus	28/01/2022	5	17	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, a Chyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol i gyfarfod i drafod y rhwystrau i leoliadau ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol EPP; Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	04/03/2022	Parhaus	Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 15 Mawrth
11	Cyhoeddus	28/01/2022	9	38	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol EPP	CAM GWEITHREDU: Paratoi Papur Bwrdd ar gyfer y cyfarfod nesaf i gynnwys pwysu a mesur sefyllfa goedwigaeth, a materion a phwysau ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru gan gynnwys ystyried y dull o adrodd yn rheolaidd.	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol EPP; Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol; Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	04/03/2022	Cwblhawyd	Eitem wedi'i chynnwys ar agenda Bwrdd mis Mawrth
12	Cyhoeddus	28/01/2022	11	44	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	CAM GWEITHREDU: Yr Athro Steve Ormerod a'r Athro Peter Rigby i gyfarfod i drafod y broses o ddatblygu'r dull o ymdrin â'r sail dystiolaeth ar gyfer Ansawdd Dŵr.	Yr Athro Steve Ormerod a'r Athro Peter Rigby	04/03/2022	Cwblhawyd	Trefnwyd y cyfarfod ar gyfer 31 Mawrth gyda thimau EPP a Gweithrediadau

Papur y Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol
Cyfeirnod y Papur:	22-03-B04
Noddir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Diben y Papur	Er gwybodaeth/i'w drafod

Cyflwyniad

1. Yn y cyfnod rhwng dau gyfarfod Bwrdd, mae'r byd wedi newid eto. Wrth i fis Mawrth ddynodi dechrau'r Gwanwyn ac wrth i ni geisio ailagor eto ar ôl y pandemig, mae ein meddyliau wedi troi'n gyflym at bobl Wcráin yn ystod yr hyn sydd bellach yn ddyddiau tywyll a pheryglus iawn.
2. Mae ein meddyliau hefyd gyda'r bobl a'r cymunedau hynny yr effeithiwyd arnynt gan stormydd diweddar Dudley, Eunice a Franklin a achosodd darfu mawr ledled y DU, a hynny bron yn union ddwy flynedd i'r dyddiad yr achosodd llifogydd 2020 ddinistr eang ledled Cymru. Mae mwy o fanylion am ein hymateb yn ddiweddarach yn yr adroddiad ac, i'r rhai nad ydynt eto wedi gweld blog rhagorol Jeremy Parr ar hyn, mae wedi'i atodi yn Atodiad 1 er gwybodaeth.
3. Ar wahân i'r tywydd eithafol, cyllideb Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth, a'n trafodaethau parhaus gyda nhw ar ein cyllideb ni, y goblygiadau i'n proses cynllunio busnes a'r gwaith sy'n deillio o'r Adolygiad Sylfaenol, sydd wedi cymryd cryn dipyn o amser y tîm Gweithredol ar draws y sefydliad. Ond rydym hefyd wrthi'n paratoi ar gyfer cael gwared ar yr holl gyfyngiadau Covid o ddiwedd mis Mawrth a sut y gallwn ddod at ein gilydd i fyfyrion ar ein profiadau, adnewyddu ein perthnasoedd ac ailgysylltu â'n gilydd. Bydd cyfarfod y Tîm Gweithredol ac Arweinyddiaeth yn Llandrindod ar 17 Mawrth yn blatfform gwych ar gyfer hyn a bydd yn archwilio sut y gallwn raeadru'r dull hwn drwy'r sefydliad, gan ddefnyddio'r trafodaethau ynghylch datblygu ein Cynllun Corfforaethol nesaf fel ffordd dda o gael pobl i ddod ynghyd i siarad am y dyfodol.

Recriwtio Uwch Aelodau Staff

4. Mae swydd wag Pennaeth Datblygu Sefydliadol yn cael ei hysbysebu'n allanol ar hyn o bryd drwy Odgers. Y dyddiad cau yw dydd Mercher 23 Mawrth. Yn y cyfamser, rydym wedi penodi Pennaeth Datblygu Sefydliadol dros dro i fwrw ymlaen â darnau o waith ar wahân. Ymunodd Sarah Stacey â ni ar 28 Chwefror am chwe mis.

Gwobrau a Chydnabyddiaeth

5. Mae'n bleser gennyf rannu gyda chi fod Michael Cresswell wedi cael ei enwi fel Arweinydd y Dyfodol Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig. Mewn cystadleuaeth gref iawn, dywedodd y beirniaid fod ei rinweddau arwain fel Arweinydd y Tîm Gweithrediadau Coedwigaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a thrwy ei rolau gyda Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, wedi creu argraff arnynt.

Cydymdeimlad

6. Cawsom hefyd y newyddion trist iawn bod Brian Prosser wedi marw. Dros gyfnod o 50 mlynedd yn y diwydiant coedwigaeth, bu Brian yn gweithio mewn llawer o dimau swyddfa lleol, yn y De-ddwyrain, Tal-y-bont, Resolfen ac yn olaf yn swyddfa Llanymddyfri. Bydd colled fawr ar ei ôl, ac mae ein meddyliau gyda'i deulu, ei ffrindiau a'i gydweithwyr.

Ymgysylltu Allanol

7. Mae wedi bod yn gyfnod cynhyrchiol arall o ran ymgysylltu, ac rwy'n falch fy mod wedi gallu dechrau mynd allan eto i gyfarfod â chydweithwyr a'n rhanddeiliaid.
8. Ym mis Chwefror, fe gwrddais i â'r Gweinidog gyda Rachael a Prys i drafod ein Hymarfer Sylfaenol, a byddaf ar banel gyda'r Dirprwy Weinidog yn ddiweddarach y mis hwn i nodi blwyddyn ers lansio Strategaeth Ddigidol newydd Llywodraeth Cymru. Rydw i hefyd yn falch o ddweud bod y Gweinidog wedi cytuno i ymuno â ni ar gyfer diwrnod cyhoeddus y Bwrdd ar 24 Mawrth.
9. Dros yr wythnosau diwethaf, rydw i wedi cyfarfod â Lucy Smith, Cyfarwyddwr Cyffredinol Strategaeth a Newid DEFRA, ac Alex Walters, Cyfarwyddwr newydd AcademiWales, a byddwn yn gweithio gyda nhw i ddatblygu hyfforddiant i aelodau'r Bwrdd ar gyfer y sector cyhoeddus ledled Cymru.
10. Cefais gyfarfodydd gyda Phrif Weithredwyr Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) ac Ofwat, a bûm yn siarad hefyd yn un o Gyfarfodydd Bwrdd Hafren Dyfrdwy. Cefais gyfarfod cynhyrchiol gydag Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod llifogydd, a chefais gyfarfodydd gyda Phrif Weithredwr Network Rail a chyda Phrif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

11. Mwynheais fy ymweliad â'r Tîm MEICA Cenedlaethol yng Nghynllun Llifogydd Afon Wydden yn Llandudno ac edrychaf ymlaen at ymweld â chynllun llifogydd Llyn Tegid cyn cyfarfod y bwrdd. Byddaf hefyd yn siarad yng Nghynhadledd Cymuned Ymchwilwyr Effeithiau Llygredd Aer yn Abertawe yn ddiweddarach yr wythnos honno.

Natur a Ni: Pa ddyfodol ydyn ni eisiau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol?

12. Dechreuodd y sgwrs Natur a Ni ar 17 Chwefror, gyda deunyddiau ar-lein yn cael eu rhannu gyda'n cronfa ddata o randdeiliaid (2,700 o gysylltiadau) wythnos cyn ei lansio, gyda chais iddynt rannu negeseuon a deunyddiau'r pecyn cymorth gyda'u rhwydweithiau eu hunain.

13. Diweddariad cychwynnol ar lefelau ymgysylltu (ar 1 Mawrth)

- Nifer yr arolygon a gwblhawyd: 1,289 (1,273 Saesneg, 16 Cymraeg)
- Nifer y cofrestriadau gweminar: 160 (149 Saesneg, 11 Cymraeg) Y nifer a hoffai gymryd rhan mewn grŵp ffocws: 104
- Nifer y sefydliadau a lawrlwythodd y pecyn cymorth: 171
- Nifer y cofrestriadau mewn gweithdai rhanddeiliaid: 68 (62 Saesneg, 6 Cymraeg)

14. Beth allwch chi ei wneud?

Cysylltwyd â Bwrdd CNC, y Tîm Gweithredol a Grŵp Cyngori Natur a Ni, gan ofyn iddynt rannu Natur a Ni gyda'u rhwydweithiau. Cysylltwyd â staff CNC drwy'r fewnwyd, drwy weminar a thrwy grŵp Hyrwyddwyr Natur a Ni Yammer gan ofyn iddynt rannu'r wybodaeth â'u rhwydweithiau. Mae cardiau post a phosteri wedi'u hargraffu hefyd ar gael i aelodau'r bwrdd i helpu i ledaenu'r gair.

15. Sylw yn y wasg

Hyd yma, mae deg o'r manau newyddion wedi cyhoeddi eitemau ar Natur a Ni. Cynhaliwyd sesiwn friffio i'r wasg ar 14 Chwefror a fynychwyd gan BBC Cymru, ITV Cymru, Wales Online a llysgennad Natur a Ni, Richard Parks. Roedd y pecyn cyfryngau yn cynnwys clip fideo gan y Gweinidog, Julie James.

16. Mynychodd ITV Cymru, Wales Online, S4C a Cardiff TV gyfle byw gyda Chyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol CNC, Prys Davies, a Richard Parks mewn ysgol yng Nghaerdydd ar 17 Chwefror, a gafodd sylw ar ITV Cymru.

17. Cyflwynodd BBC Radio Wales raglen bum munud ar Natur a Ni fel rhan o'u cyfres Country Focus (a ddarllledwyd am y tro cyntaf ddydd Sul 20 Chwefror)

18. Dechreuodd yr ymgyrch hysbysebu ar 17 Chwefror, ond daliodd CNC y negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn ôl i sicrhau bod ein sianelau'n canolbwyntio ar y stormydd a'r achosion o lifogydd yn ystod y tywydd garw.

19. Llysgenhadon

Bydd Richard Parks yn parhau i helpu i gefnogi'r sgwrs genedlaethol drwy ymweliadau ychwanegol ag ysgolion mewn ardaloedd o Gymru sydd â chymunedau amrywiol, a byddwn yn cipio'r ymweliadau hyn ar fideo.

20. Mae Iolo Williams wedi recordio neges fideo i agor y gweminarau cyhoeddus, yn ogystal â rhai clipiau fideo byr, y gallwn eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol i annog pobl i gymryd rhan.

21. Beirdd preswyl

Bydd beirdd yn mynychu rhai o'r gweminarau, grwpiau ffocws a gweithdai rhanddeiliaid i gael syniadau i'w defnyddio yn eu gwaith. Mae'r ddau yn trefnu digwyddiadau ymgysylltu yn eu cymunedau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys sesiwn ddwyieithog (Wrddw a Saesneg) mewn mosg yng Nghaerdydd, gweithdy ysgrifennu creadigol ar thema argyfwng hinsawdd wedi'i anelu'n benodol at grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a chyfres o gyfweiliadau gyda ffermwyr yn ne Gwynedd/Maldwyn.

Cyfathrebu

22. Lanswyd y nesaf yn y gyfres o brosiectau i'w cefnogi gan Raglen LIFE yr UE a Llywodraeth Cymru. Bydd prosiectau Pedair Afon a Corsydd Crynedig LIFE gwerth £13.8 miliwn yn helpu i adfer y cynefinoedd hyn er budd natur a'r amgylchedd yng Nghymru.

23. Buom yn gweithio'n agos gyda Natural England a'n partneriaid yng Nghymru i lansio'r Cod Cefn Gwlad newydd ar gyfer Rheolwyr Tir ddechrau mis Chwefror, a buom yn gweithio gyda Forest Holidays i gyhoeddi mai Canolfan Ymwelwyr Garwnant fyddai'r lleoliad nesaf ar gyfer eu profiad gwyliau caban nesaf. Cafodd ein gwaith gyda Phrifysgol Caerdydd a gwirfoddolwyr yr Arolwg Cenedlaethol Dyfrgwn gryn sylw yn y cyfryngau cenedlaethol hefyd.

24. Buom hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gyhoeddi lleoliadau'r Coedlannau Coffa, sy'n cynnwys Brownhill ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru (WGWE) yn Nyffryn Tywi yn Sir Gâr.

25. I nodi dwy flynedd ers llifogydd mis Chwefror 2020, aethom ati i gyhoeddi erthygl farn yn The National a chyhoeddi hysbysiad i'r wasg yn tynnu sylw at y fffaith y byddai llifogydd a thywydd eithafol yn dod yn realiti newydd llym i Gymru. Arweiniodd hyn at ddiddordeb brwd gan y cyfryngau cenedlaethol a lleol. Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl gydag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys GB News, a chyfweiliad stiwdio byw ar ITV Wales Tonight. Arweiniodd y gwaith hwn hefyd at gyfweiliad manwl ar dywydd eithafol yng Nghymru ar BBC Wales Live (a ddarledwyd ar 2 Mawrth) ac rydym yn cynnal sesiynau briffio gyda The One Show sy'n ceisio tynnu sylw at gynlluniau

amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru fel rhan o adroddiad ar dywydd eithafol a llifogydd y maent yn bwriadu ei gomisiynu'n fuan.

26. Yn y cyfnod cyn ac yn ystod Stormydd Dudley, Eunice a Franklin, gwnaethom roi llawer o'r gwersi a ddysgwyd o lifogydd mis Chwefror 2020 ar waith o ran ymgysylltu'n gynnar â phartneriaid. Roedd hyn yn cynnwys briffio grŵp cyfathrebu Rhybuddio a Hysbysu Llywodraeth Cymru a alwyd cyn y stormydd er mwyn sicrhau bod partneriaid yn ymwybodol o'r negeseuon a'r asedau cyfryngau cymdeithasol roeddem wedi'u paratoi ar eu cyfer y llynedd, ac yn eu defnyddio. Gwnaethom hefyd ddatblygu negeseuon a hwyluso dros 30 o gyfweiliadau gyda llefarwyr ar ran CNC dros gyfnod y stormydd. Mae rhagor o fanylion am ein hystadegau ar y we ar gael yn Atodiad 2.
27. Rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd i amryw o ganlyniadau llys a'r sancsiynau sydd wedi'u gosod ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys amryw o achosion pysgota anghyfreithlon a throseddau llygredd afonydd. Ymddangosodd ein gwaith gorfodi ar Ymgyrch Keyhole hefyd fel eitem ar raglen Fraud Squad y BBC.

Cwsmer

28. Mae'r Awdurdod Safonau Cwynion wrthi'n archwilio holl sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru i wella cysondeb a gwasanaethau cwsmeriaid. Aethom atyn nhw'n uniongyrchol a gofyn iddyn nhw archwilio ein proses gwyno bresennol a rhoi cymorth a hyfforddiant i ni ar sut i wella'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion cwsmeriaid ac yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd. Bydd y gwaith hwn yn parhau hyd at fis Mehefin 2022.
29. Ar ôl proses dendro helaeth a chystadleuol, rydym wedi penodi darparwr i ddylunio a darparu hyfforddiant rhagoriaeth gwasanaethau cwsmeriaid ar gyfer holl gydweithwyr CNC. Bydd yr hyfforddiant pwrpasol hwn yn ein helpu i sicrhau bod cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.
30. Rydym hefyd wedi penodi arbenigwr allanol i gyflawni ein gwaith Mapio Teithiau Cwsmeriaid. Ar ôl proses gaffael fanwl, rydym yn falch o fod yn gweithio gyda Mima Group Ltd a fydd yn ein helpu i ddeall y farn gyfannol o ganfyddiadau cwsmeriaid CNC.
31. Fis diwethaf, dechreuodd y gwaith gyda'r tîm Gwelliant Parhaus i adolygu'r broses o ymateb i geisiadau gan gwsmeriaid am ddata a drwyddeddir. Mae hyn yn unol ag adolygu holl wasanaethau'r Ganolfan Cwsmeriaid sy'n wynebu cwsmeriaid er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cael gaffael ar ein data a'n gwybodaeth yn gyflym ac yn rhwydd.

Gwelliannau i'r Gofrestr Gyhoeddus Ar-lein

32. Mae rhywfaint o ddeddfwriaeth trwyddedu yn ei gwneud yn ofynnol i ni fod â chofrestr gyhoeddus ar gyfer y rhan fwyaf o'r dogfennau cais, cydymffurfio a gorfodi.
33. Ers ffurfio CNC, rydym wedi defnyddio'r System Rheoli Dogfennau (DMS) fel ein cofrestr gyhoeddus. Yr unig ffordd i aelodau'r cyhoedd weld y dogfennau hyn oedd drwy wneud cais. Gan nad oedd hyn, mewn rhai achosion, yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol ac yn unol â bod yn sefydliad agored a thryloyw, dechreuodd y gwaith yn 2017 i ddatblygu cofrestr gyhoeddus ar-lein (OPR). Ym mis Tachwedd 2019, aeth yr OPR yn fyw ar ein gwefan, gan ddangos holl ddogfennau'r gofrestr gyhoeddus a dderbyniwyd neu a grëwyd ers mis Medi 2018. Dewiswyd y dyddiad hwn gan ein bod yn fwy hyderus gydag ansawdd metadata o'r dyddiad hwn.
34. Ers mynd yn fyw, mae'r OPR wedi bod yn system lwyddiannus ac mae'n cael ei defnyddio'n dda, gan dderbyn miloedd o 'drawiadau' y flwyddyn. Fodd bynnag, yn ddiweddar rydym wedi bod yn derbyn nifer cynyddol o geisiadau am ddogfennau'r gofrestr gyhoeddus o cyn 2018. Mae hyn yn cymryd llawer o amser ac, yn aml, mae angen cydgysylltu sylweddol i ddod o hyd i'r dogfennau cywir a'u cael at y cwsmer.
35. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r tîm Arloesi Rheoleiddiol wedi adolygu'r dyddiad 2018 ac yn gweithio ar ddileu hyn drwy ddull gweithredu fesul cam. Er gwaethaf rhai problemau ar y cychwyn, mae'r dull wedi bod yn llwyddiant gyda thros 6,000 yn fwy o ddogfennau wedi ymddangos ar ein cofrestr gyhoeddus hyd yma, gyda llawer mwy i ddod, gan ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid gael gafael ar wybodaeth.

APIs yr Arolwg Ordnans mewn cynhyrchion llifogydd

36. Mae CNC yn rhan o Gytundeb Geo-ofodol y Sector Cyhoeddus (PSGA) sy'n rhoi mynediad i ni at ddata gofodol yr Arolwg Ordnans (OS). Yn ddiweddar, rydym wedi defnyddio cynnyrch rhyngwyneb newydd sy'n defnyddio data yn uniongyrchol o'r Arolwg Ordnans. Roedd cynnyrch "gwirio'ch risg llifogydd yn ôl cod post" CNC yn un o'r rhaglenni cyntaf i ddefnyddio'r dull newydd sy'n golygu y gallwn ddefnyddio data mewn ffyrdd llawer cyflymach a chaniatáu mynediad di-dor at Ddata yr Arolwg Ordnans.

Materion Strategol

Treth Gwarediadau Tirlenwi

37. Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn 2017 i gasglu a rheoli dwy dreth ddatganoledig newydd ar 1 Ebrill 2018: Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) a'r Dreth Trafodiadau Tir. Mae rhai o bwerau ACC i ymchwilio i risgiau treth LDT wedi'u dirprwyo i CNC, ac mae tîm arbenigol o staff CNC wedi'i ariannu'n llawn i gyflawni hyn. Ers cyflwyno LDT, rydym wedi adeiladu partneriaeth gref yn gweithio'n agos gydag ACC i ddwyn ynghyd yr arbenigedd treth ac amgylcheddol i helpu i gasglu a rheoli'r dreth hon yn effeithiol.

38. Cyflwynodd Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 dâl treth newydd ar warediadau gwastraff heb awdurdod yng Nghymru. Codir Treth Gwarediadau Anawdurdodedig (UDT) ar gyfradd o 150%, cyfradd sylweddol uwch na dyddodion mewn safleoedd awdurdodedig, sy'n darparu offeryn ychwanegol i fynd i'r afael â safleoedd gwastraff anghyfreithlon.
39. Drwy'r Cytundeb Rhannu Gwybodaeth ar y cyd, mae CNC wedi cyfeirio 31 o achosion gwastraff anghyfreithlon at ACC ers 2019 i ystyried cymhwysio pwerau CDU. Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig yn gynharach y mis hwn gydag ACC yn cyhoeddi ei Hysbysiad Rhagarweiniol cyntaf. Bydd hyn yn anfon neges glir at y rhai sy'n ymwneud â throeddau gwastraff bod y cosbau ariannol yn sylweddol, a gobeithio y bydd hyn yn gweithredu fel rhwystr pwerus.

Adolygiad Strategol o Daliadau (SRoC)

40. Mae CNC yn rheoleiddio amrywiaeth o gyfundrefnau, ac mae gennym ganiatâd cyfreithiol i godi tâl am y rhan fwyaf ohonynt. Ar hyn o bryd, mae ein taliadau Rheoleiddiol yn codi tua £39 miliwn bob blwyddyn i gefnogi ein gweithgareddau rheoleiddio (trwyddedu a chydymffurfio i raddau helaeth).
41. Mae'r taliadau hyn yn ein galluogi i adennill ein costau yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru, yn benodol '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*'. Mae'r cyfundrefnau hynny na allwn godi tâl amdanynt yn cael eu hariannu'n llawn gan tua £1.3 miliwn o Gymorth Grant (GiA) y flwyddyn, tra bod eraill fel Pysgodfeydd yn cael eu cefnogi'n rhannol gan GiA.
42. Ers sefydlu CNC, rydym wedi gwneud newidiadau cymedrol o flwyddyn i flwyddyn i'n cynllun codi tâl, gan ganiatáu i ni gadw i fyny â newidiadau mewn deddfwriaeth; rheoli balansau tâl; a chefnogi gofynion allweddol megis ariannu gwelliannau i ddiogelwch cronfeydd dŵr ar Adran 20 Safleoedd cronfeydd dŵr Dŵr Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn ceisio cymeradwyaeth y Gweinidog i'n cynigion taliadau blynyddol ar gyfer 2022/23.
43. Mae ein rhaglen SRoC wedi gwneud gwaith eang a manwl i sefydlu ein sylfaen gostau bresennol ac i sefydlu ffioedd diwygiedig ar gyfer yr holl gyfundrefnau y gallwn godi tâl amdanynt. Yn seiliedig ar amserlenni presennol, rydym yn canolbwyntio ar daliadau Trwyddedu diwygiedig i gychwyn i'w cyflwyno ddiwedd hydref 2022, a ffioedd Cynhaliaeth diwygiedig (ar gyfer asesiad cydymffurfio) i'w cyflwyno o fis Ebrill 2023. Dyma'r tro cyntaf i CNC gynnal adolygiad mor eang o daliadau rheoleiddiol.

Lansio ymgynghoriad y Gwasanaeth Olrhain Gwastraff

44. Ar 21 Ionawr, cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus ledled y DU ar 'Gyflwyno gwasanaeth olrhain gwastraff digidol gorfodol'.

45. Cynhyrchir tua 9 miliwn tunnelli o wastraff yng Nghymru bob blwyddyn ac, ar hyn o bryd, nid oes ffordd ganolog o olrhain ble a sut y caiff gwastraff ei ailgylchu neu ei waredu, gan adael cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau troseddol. Mae'r gwasanaeth olrhain gwastraff yn cynnig cyfle newydd a chyffrous i ddeall yn iawn beth sy'n digwydd i wastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'i drafod yn y DU, a bydd yn galluogi CNC i gyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio yn fwy effeithiol a chefnogi ein symudiad at economi fwy cylchol.
46. Mae cyflwyno gwasanaeth olrhain gwastraff digidol gorfodol yn newid trawsnewidiol sylweddol i fusnesau Cymru, cludwyr gwastraff cofrestredig, broceriaid, gwerthwyr a gweithredwyr gwastraff a ganiateir. Bydd y gwasanaeth yn cael ei lansio yn ystod 2023-24 ac mae rhaglen waith ar y gweill i sicrhau bod prosesau a systemau presennol CNC yn cael eu sefydlu i ryngweithio â'r gwasanaeth olrhain gwastraff.
47. Rydym wrthi'n cysylltu â gweithredwyr gwastraff a ganiateir, cludwyr/broceriaid/gwerthwyr gwastraff trwyddedig, gweithredwyr safleoedd sydd wedi'u heithrio rhag gwastraff, allforwyr gwastraff a llu o randdeiliaid allweddol eraill i'w hysbysu am yr ymgynghoriad ac annog ymatebion. Mae dros 200 o ymatebion ledled y DU wedi dod i law hyd yma, ac maent yn dangos cefnogaeth ysgubol i un system olrhain gwastraff ddigidol. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 15 Ebrill 2022.

Adolygiad o Chwaraeon Moduro ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru

48. Derbyniwyd argymhellion yr adolygiad yng nghyfarfod Bwrdd CNC ar 14 Gorffennaf 2021, lle penderfynwyd y byddai caniatâd ar gyfer chwaraeon modur yn parhau ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru, yn amodol ar drafodaethau parhaus gyda Motorsports UK (MSUK) a'u Clybiau Cysylltiedig i wella cynaliadwyedd a lleihau ôl troed carbon y gamp pan fyddant yn gweithredu ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru.
49. Ers hynny, rydym yn cynnal deialog rheolaidd a chynhyrchiol gydag MSUK ar gytundeb diwygiedig. Bydd y gwaith sydd ei angen i wneud y newidiadau i gyflawni'r penderfyniad gan Fwrdd CNC yn cael ei nodi mewn atodlen i'r prif gytundeb gydag MSUK ar gyfer raliô ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, ochr yn ochr â'r adferiad o'r tarfu a ddigwyddodd yn sgil pandemig y Coronafeirws, mae MSUK eisoes yn gwneud newidiadau i leihau ôl troed carbon y gamp a gwella cynaliadwyedd ymhellach mewn ffyrdd eraill.
50. Mae MSUK wedi mabwysiadu Fframwaith Chwaraeon ar gyfer Gweithredu ar yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, wedi ymuno â'r British Association for Sustainability in Sport, wedi penodi Pennaeth Cynaliadwyedd ac wedi cyhoeddi strategaeth gynaliadwyedd ar gyfer 2021 - 2030. Cynrychiolir CNC ar Weithgor Cynaliadwyedd MSUK ar gyfer Raliâu Cymalau ac rydym ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gael cytundeb diwygiedig gyda Motorsports UK sy'n cyflawni penderfyniad Bwrdd CNC mewn pryd ar gyfer y cytundeb presennol sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

Is-ddeddfau pysgota newydd ar afonydd Wysg, Gwy a Hafren (yng Nghymru)

51. Fel y gwyddoch, buom yn ymgynghori y llynedd ar is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota eogiaid a brithyllod môr ar afon Wysg ac afonydd Gwy a Hafren yng Nghymru. Daeth yr is-ddeddfau presennol ar afonydd Wysg a Gwy a oedd yn mandadu C&R i ben ar ddiwedd 2021 ac roedd angen is-ddeddfau newydd. Yn yr un modd, bydd yr is-ddeddfau brys ar afon Hafren yng Nghymru yn dod i ben ddiwedd mis Chwefror.
52. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyflwynwyd ein hachos i Lywodraeth Cymru, ac mae'r Gweinidog bellach wedi cadarnhau'r is-ddeddfau newydd hyn a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2022. Bydd is-ddeddfau afonydd Wysg a Gwy ar waith tan 31 Rhagfyr 2029, i gyd-fynd â diwedd is-ddeddfau 'Cymru Gyfan' ac 'Afonydd Trawsffiniol'. Dyma'r gofynion:

Afon Wysg

- Pysgota dal a rhyddhau gorfodol ar yr holl eogiaid
- Pysgota dal a rhyddhau gorfodol ar yr holl sewin a ddelir cyn 1 Mai

Afon Gwy

- Pysgota dal a rhyddhau ar yr holl eogiaid a brithyllod môr
- Diwygio dyddiad diwedd y tymor eogiaid fel ei fod yn rhedeg o 3 Mawrth i 17 Hydref ar gyfer yr afon gyfan a'r llednentydd

Bydd is-ddeddfau afon Hafren ar waith am 10 mlynedd a dyma'r gofynion:

- Rhyddhau gorfodol ar yr holl eogiaid a brithyllod môr a ddelir gyda gwialen a lein,
- Cyfyngiadau ar ddulliau genweirio i wella'r ffordd mae eogiaid a ryddhawyd yn cael eu trin ac yn goroesi, gan gynnwys:
 - Gwahardd pysgota ag abwyd wrth bysgota am eogiaid a brithyllod môr
 - Y defnydd gorfodol o fachau heb adfach
 - Cyfyngiadau ar y math o fachyn, ei faint a faint ohonynt a ddefnyddir

53. Er mwyn sicrhau bod eogiaid a brithyllod môr ar afon Gwy yn cael yr un lefel o ddiogelwch o boptu'r ffin, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn dal i fynd ar drywydd is-ddeddfau cydredol ar gyfer afon Gwy yn Lloegr ac, er eu bod wedi cwblhau eu hymgynghoriad ac wedi cyflwyno eu hachos i DEFRA tua'r un adeg â ni, yn anffodus, nid yw'r is-ddeddfau ar gyfer afon Gwy yn Lloegr wedi'u cadarnhau eto. Gan fod y tymor ar afonydd Gwy ac Wysg yn cychwyn ar 3 Mawrth, rydym eisoes wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ac wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg ar gyhoeddi is-ddeddfau newydd yng Nghymru.

Datblygiadau Masnachol Cynaliadwy

Gwerthu Pren

54. Mae gwasanaeth e-werthu mis Chwefror bellach wedi cau, ac mae'r marchnadoedd wedi dechrau lefelu dros y ddau werthiant diwethaf.
55. Aeth y Diwrnod Cyswllt Gwerthu Pren yn dda, gyda sgysiau hwyliog a rhai pwyntiau da yn cael eu gwneud. Roedd yn ymddangos bod cwsmeriaid yn croesawu'r Telerau ac Amodau mwy cryno ac rydym wedi gwella rhyngweithiadau masnach yn sylweddol, ac roedd hwn yn ddigwyddiad defnyddiol er gwaethaf y niferoedd isel, yn enwedig gan y sefydliadau llai o faint hynny. Rydym yn cydnabod bod pobl yn gwneud busnes mewn gwahanol ffyrdd wrth i ni ddod allan o'r pandemig ac rydym yn edrych ar ffyrdd o addasu i'r newidiadau hyn fel y gallwn wneud y gorau o'n cyrhaeddiad.

Busnes Mewnol

Rotâu Digwyddiadau

56. Yn dilyn yr Ymgynghoriad o Rotâu drwy'r pum Undeb Llafur, mae'n bleser gennyf adrodd bod aelodau Undebau Llafur ar draws y pum Undeb Llafur wedi pleidleisio o blaid derbyn y newidiadau arfaethedig. Felly bydd yr holl staff yr effeithir arnynt yn derbyn y taliad iawndal yn eu cyflog ym mis Mawrth. Rydym bellach yn symud ymlaen gyda'r gweithredu, gyda chanllawiau pellach yn cael eu datblygu mewn perthynas â sut y caiff amgylchiadau personol eu hystyried, yr hyfforddiant ar gyfer pob un o'r rotâu yn ogystal ag ystyried yr apeliadau – derbyniwyd 46 ohonynt.

Tâl

57. Ar ôl ymgynghori ag Undebau Llafur, cytunodd pob un o'r pum undeb llafur i dderbyn y dyfarniad cyflog o 2% ar gyfer 21/22 yn ogystal â chynnydd mewn rhai taliadau chwyddo a thaliadau. Caiff hyn ei ôl-ddyddio i fis Gorffennaf 2021. Bydd yr ôl-daliadau yn cael eu talu yng nghyflog mis Mawrth.
58. Mae'r Tâl a'r Rotâu wedi bod yn ddarnau sylweddol o waith, felly hoffwn ddiolch i'r timau dan sylw.

Adnewyddu

59. Mae'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Strategol, Adfer ac Adolygu, a safodd i lawr o ganlyniad i'r newid yn lefelau rhybudd Covid, wedi'i sefyll i lawr eto, gyda gwaith unwaith eto'n cael ei drosglwyddo i Fwrdd y Rhaglen Adnewyddu. Mae'r Grŵp Ymateb Tactegol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i sicrhau bod unrhyw broblemau newydd sy'n ymwneud â Covid yn cael eu cipio a'u datrys.
60. Mae rolau arweiniol Rheolwr Gwasanaethau'r Rhaglen Adnewyddu a'r ffrwd waith Adnewyddu i gyd bellach yn cael eu penodi, gydag un swydd wag yn destun recriwtio

ar hyn o bryd fel rhan o Cymorth Rhaglenni. Ar 1 Ebrill, mae rhaglen foderneiddio Menter yn symud i Adnewyddu.

61. Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r adran Rheoli Fflyd a Chyfleusterau, a fydd yn hwyluso canlyniadau strategol y Rhaglen Adnewyddu, yn mynd rhagddo'n dda ac mae'r system archebu desg ac ystafell gyfarfod newydd yn parhau i gael adborth cadarnhaol.
62. Mae gwaith yn parhau ar y llinell sylfaen ar gyfer costau Carbon ac Ariannol i'w mesur yn erbyn targedau i'w pennu wrth gyhoeddi'r strategaethau gofod a theithio.
63. Mae gwaith yn parhau i sbarduno'r ffrwd waith Gofod, gyda thimau Lle yn cyflwyno eu cynigion i Fwrdd y Rhaglen Adnewyddu ar 30 Mawrth. Mae'r ffrwd waith teithio yn gweithio gyda chwsmeriaid fflyd i ddylanwadu ar fanyleb EVV ar gyfer gofyniad fflyd y flwyddyn nesaf, ac mae hefyd yn arwain ar gaffael cyflenwr seilwaith EVV. Bydd HVO (Olew Llysiau wedi'i Hydrodrin) yn cymryd lle diesel coch mewn cerbydau gweithredol ar 1 Ebrill 2022.
64. Mae'r Tîm Gweithredol, y Tîm Arwain, y Tîm Rheoli ac Arweinwyr Tîm yn parhau i ymgysylltu i gefnogi'r dull integredig ar draws y sefydliad ac i ledaenu cyfathrebiadau ar gyfer y rhaglen ymhellach.

Rhagolwg

- Dechrau'r cyfnod cyn yr etholiadau Llywodraeth Leol - 21 Mawrth
- Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd - 7 Ebrill
- Galwad Diweddariadau'r Bwrdd – 13 Ebrill
- Y Pwyllgor Cyllid – 14 Ebrill
- Diweddariad Diwedd Blwyddyn y Pwyllgor Cyllid – 28 Ebrill
- Hyfforddiant Cyfreithiol Safleoedd Gwarchodedig – 13 Mai
- Digwyddiad CNC yn y Senedd – 18 Mai
- Cyfarfod Bwrdd yn Sir Gâr – 25 a 26 Mai

Mynegai i'r Atodiad

Atodiad 1

Ymateb ac Adfer o Stormydd Dudley, Eunice a Franklin – Blog gan Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau, CNC

Atodiad 2

Ystadegau'r we o stormydd Eunice a Franklin (17 – 21 Chwefror)

Annex 1. Responding and Recovering from Storms Dudley, Eunice and Franklin – Blog by Jeremy Parr, Head of Flood & Incident Risk Management, NRW

Two years on from the devastation caused by the February 2020 floods, the UK faced the onslaught of three named storms in the space of less than a week (16 - 21 February 2022).

Storms Dudley, Eunice and Franklin hit UK shores in quick succession, bringing damaging winds and rain which would lead to widespread disruption in communities right across the country.

The impacts on people, property, livelihoods, and our natural environment have been widespread, and our thoughts are with those affected.

The frequency and ferocity of such weather events are increasingly being considered in the context of climate change, raising significant questions about how we respond to such incidents now and how we must adapt to what the future will bring.

Putting the preparations in place

It has certainly been a busy week for Natural Resources Wales and our partners. For the first time since Met Office starting naming storms in 2015, we had three in one week, plus two Red Weather Warnings were issued across the UK – one of which spanned the south Wales Coast - as Storm Eunice encroached on our shores.

In the lead up, for several days previously, we were fully engaged with our colleagues at the Met Office and the Flood Forecasting Centre (FFC), attending briefings and sharing information on potential impacts with the Welsh Government and our partners to ensure swift and appropriate measures were be put into place.

The information they supply to us, and other agencies across the UK is invaluable – particularly when the trajectory and impacts of the storms are as unpredictable as those we experienced last week.

They share detailed, technical data and analysis on the range of possibilities in the forecasts, helping us to make critical decisions related to potential flood and environmental impacts here in Wales.

Their expertise also informs how we communicate potential risks to the public to ensure they can prepare and take the necessary steps to protect themselves from the worst impacts of the storms. As the situation escalated, our excellent spokespeople were regularly featured on national and regional media outlets,

warning and informing listeners and viewers on the evolving risks and what they needed to do to ensure their own safety and that of their loved ones.

Out on the ground in Wales, our own highly skilled operational teams were checking flood defences in key locations along the coast and inland were in good working order to reduce the flood risk to people and property. Our colleagues who care for and manage the Welsh Government Woodland Estate were also ensuring that our woodlands, trails and visitor centres were braced for the effects, making crucial decisions to close our sites to visitors to ensure their ongoing safety.

Storm Dudley

Storm Dudley was set to make landfall on Wednesday 16 February, triggering a yellow warning for wind that spread across most of Wales. While its impacts were most significantly felt across the North of the UK, there was some wind damage in Wales, with Capel Curig registering gusts of up to 81mph.

Storm Eunice

Hot on its heels, Storm Eunice was gathering strength as it tracked across the Atlantic, bringing the threat of extremely high winds and the potential for coastal flooding impacts that would span the entire Welsh coastline.

The Met Office issued two rare Red Warnings for Wind for 18 February, signalling that there would be a 'danger to life' for those living in communities that came under the warning area. This included communities along the length of the South Wales coast.

The uncertainty in the timing and location of Eunice's strongest winds posed significant difficulties when trying to pinpoint potential impacts.

Our land management teams took the crucial decisions to close our visitor centres, walking and mountain bike trails at sites right across Wales, including Coed y Brenin and the Afan Forest. The car park at Llanddwyn Beach on Anglesey was also closed to visitors.

There was the very realistic prospect of the strongest onshore winds and the peak of the storm coinciding with the high tides. This would create a very potent and dangerous mix and could have led to 2 metre plus storm surges and significant flooding to coastal communities.

This eventuality was considered at every turn by our expert forecasting team, recognising the challenge this exceptional scenario posed when trying to pinpoint where exactly that combination would occur.

All the while, we worked with our professional partners to plan for and respond to the weather, chairing and attending multiple strategic and tactical response meetings and working out on the ground to check and erect defences and closing our woodlands, trails and car parks for the safety of staff and visitors.

There was no denying that the message from the Met Office, all levels of government, NRW and our partners was that Storm Eunice had the potential to be one of the most significant storms experienced on UK shores, and the need to prepare effectively was crucial.

The Flood Warning Service operated by NRW is a key component in the flood risk management service we deliver. This free service provides vital information to signed-up customers in areas at risk from flooding from rivers and the sea, giving advance warning and therefore time for people to take action to protect both themselves and their property.

Before Storm Eunice made landfall, because of the significant potential for widespread impacts across the whole Wales coast and the challenges in pinpointing where exactly would see the worst impacts, we made the decision to issue Flood Warnings for all of our coastal flood warning areas – 113 in total – to ensure people had the time to prepare accordingly.

Our forecasting, warning and incident response teams worked tirelessly to deal with a dynamic and ever-changing picture, to interpret the data, make decisions, inform people and take action on the ground.

As high tides passed across Wales during Friday morning, the wave and surge heights followed the best estimates. We were really fortunate though that the surge peak and strongest winds did not coincide with high tides – the margins were extremely close. Had that very realistic prospect materialised, Wales' coastline would probably have experienced very significant and serious flood impacts. In the event, we thankfully did not see the reasonable worst-case projections, and our coastal defences did their job to help protect the communities that lie behind them.

The strong winds resulted in some damage to trees across the woodland estate but the overall impact to our forestry and woodland was minimal. We continue to inspect for damage and make areas safe as required which we always do following periods of bad weather.

Storm Franklin

No sooner had Storm Eunice moved away from UK shores, Storm Franklin was named, bringing further bands of heavy rain and strong winds to Wales over the weekend – particularly across Mid Wales on the Sunday (20 February).

With the ground already saturated and river levels high, the impact of further rainfall would see rivers reacting quickly and we issued many Flood Warnings for Mid Wales in particular.

Our engagement with Welsh Government, our partners and the public continued as we urged those living in at risk areas to remain vigilant and to be prepared to act if a warning was received.

Large areas of low-lying land in the Severn, Teme, Vyrnwy, Wye and Usk catchments were affected by flood water with reports of around 50 properties.

Some areas saw the highest river levels ever recorded – breaking some of the records set during Storm Dennis two years ago.

New record levels were set on the River Severn at Newtown, Llanidloes and Munlyn. On the River Teme at Dutlas and Knighton and on the River Vyrnwy at Meifod. There were also exceptionally high river levels recorded on the River Vyrnwy and the Upper Wye.

Our defences and Flood Warnings

Whilst some people have experienced flooding, our defences, which benefit 73,000 properties, have done their job in reducing the risk for thousands of people. Investments made to these crucial pieces of infrastructure since previous major flood events have significantly improved our resilience and reduced the risk of flooding for the communities behind these defences.

The uncertainty surrounding exactly where the coastal impacts would be greatest and where the heaviest downpours would hit made pinpointing where the most significant impacts would be that much harder. But we did our job and issued alerts and warnings with pace and precision as the storms rolled in.

And the number of warnings and alerts issued over this period were significant. We issued 142 Flood Warnings and 68 Flood Alerts with over 76,550 properties potentially warned.

While it is heart-breaking to hear of the flood impacts experienced, the tireless work of all our staff has allowed us to ensure early action to warn and inform was taken, helping to reduce the impacts for many people.

Next steps

Our work does not stop after the storms pass. Our teams have been out on the ground checking flood defences for damage and clearing debris, and also checking our nature reserves for damage and forests for windblown trees. We will also be checking our network of walking and mountain bike trails and clearing any obstructions. Some remained closed while this important work gets underway.

Just as we do after every significant incident, we will take stock of the work we did in the lead-up, during and following the storms to see if there are lessons to be learnt and improvements we can make.

From our land managers to our flood risk teams, to everyone working behind the scenes, I am proud to recognise the fantastic work that has been done - and continues to go on - during this challenging period.

Climate change

Climate change is causing more extreme weather events and we are certain to see more of the types of storms we have seen recently in the future.

Today's latest report from the Intergovernmental Panel on Climate Change (IPCC) serves as a stark warning of the true scale of the global adaptation and urgent climate resilience needed now if we are to arm ourselves for the climate shocks ahead.

We have to accept that we cannot stop the rain and that some flooding is inevitable. Our message to people is clear - just because flooding hasn't happened to you in the past, it doesn't mean it won't happen in the future.

Flood defences will always be at the heart of managing the nation's risk, but we all need to adapt to the changing climate. This means making big decisions about how and where we live and work and learning to live with more water - and do so better than ever before.

We need to build or convert properties to be more resilient to flood water, so that people and businesses can bounce back quicker when the waters start to rise.

We'll also need to be more innovative and look at new approaches to work more effectively with landowners to make space for the huge quantities of water we are seeing during floods.

It is clear though that this is not just about planning for the future, the impacts of climate change are happening now, and the need to adapt to these changes is real and pressing.

What we can all do

We must all adapt the way we live and work as the climate emergency evolves – to learn to live with variations in temperature and more water and to support our communities to become vigilant and more resilient to more frequent extreme weather events.

Advances in the range of services available on our website means that people now have more information at their disposal to take their own preparatory steps. People can now identify their future **flood risk simply by entering a postcode**. Our website also includes information on what to do **before, during and after** a flood and how to **sign up to NRW's free flood warning system**. Our new **Flood Map for Planning** also includes information on how climate change will affect flood risk over the next century.

The impact of climate change is something for all of us to tackle as a collective and is an issue that must be tackled without delay.

Annex 2. Web statistics from Eunice and Franklin (17 – 21 Feb)

Most of the feedback from people using the website over the recent storms was positive. This suggests that the improvements to our online flood services and content over the last 18 months are helping people understand their flood risk and take action.

Checking for flood warnings

356,099 unique page views

Around 70% are using their mobiles

Flood alerts and warnings on the North Wales coast, River Taff, and Upper Severn were the top viewed pages.

Checking flood risk

30,459 unique page views (simple address search tool)

1,680 unique page views (check your flood risk on a map)

River levels

130,780 unique views of the river levels info

Severn at Llandrinio, Vyrnwy at Llanymynech and Wye at Erwood were the most popular river gauges being checked

5-day flood forecast

9,623 people checked to understand their flood risk over the next 5 days

This is a service that more people accessed using a desktop (rather than mobile or tablet), which could suggest a different type of user.

Advice on what to do

Around 5000 people checked for advice on how to prepare for flooding. 177 people went on from here to the sign up for flood alerts page.

Around 1000 people have looked for advice on what to do during a flood.

80 people have looked for advice on what to do after a flood.

Disclaimer

- Assumption is that numbers are actually a lot higher, but if people don't 'accept cookies' we can't track them



Papur Bwrdd

Teitl y papur:	Diweddariad gan y Pwyllgor Cyllid
Cyfeirnod y papur:	22-03-B05
Noddir y papur gan:	Syr David Henshaw – Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cyflwynir y papur gan:	Syr David Henshaw

Diben y papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r diweddaraf i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 10 Chwefror 2022.

Diweddariad

Diweddariad Cyllid

2. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â pherfformiad ariannol cyfredol CNC ac unrhyw risgiau o ran gwariant.
3. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r gofynion anghyson a'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer coedwigaeth a phren. Awgrymwyd gennym y dylid ystyried y trefniadau trosolwg ar gyfer y maes hwn yn dilyn y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod cyfarfod Bwrdd CNC ym mis Mawrth ynglŷn â diben a rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Fforddiadwyedd a Mesurau Rheoli'r Gweithlu

4. Rhoddwyd y diweddaraf ynglŷn â'r newidiadau yng nghyswllt fforddiadwyedd a mesurau rheoli'r gweithlu. Nododd y Pwyllgor fod rhai o'r mesurau rheoli wedi cael eu llacio a bod penderfyniadau recriwtio, yn gyffredinol, yn cael eu gwneud ar lefel y gyfarwyddiaeth erbyn hyn.
5. Trafododd y Pwyllgor y manteision sydd ynghlwm wrth 'recriwtio o dan arweiniad gwybodaeth', megis recriwtio yn ôl setiau sgiliau yn hytrach nag yn ôl nodweddion y swydd, sef model a allai fod yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gofyn i'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau ystyried y mater hwn er mwyn sicrhau y bydd modd cael y cydbwysedd iawn.

Ymarfer Llinell Sylfaen a Chyllideb 2022-23

6. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â'r gwaith sydd ar y gweill o ran categoreddio gweithgareddau CNC. Roedd angen cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael i leihau'r bwlch cyllido, fel y nodwyd yn ystod yr ymarfer cyllideb a gynhaliwyd yn yr haf, er mwyn lleihau'r pwysau ar y sefydliad.
7. Pwysleisiais pa mor bwysig yw cyfeirio at Fwrdd CNC yn yr wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru ynglŷn â lefelau'r gwasanaeth y gallai CNC eu darparu wrth symud ymlaen.

Cynigion Codi Tâl ar gyfer 2022/23

8. Derbyniodd y Pwyllgor yr argymhelliad ar gyfer parhau â'r Cynigion Codi Tâl, fel y'u nodir yn yr ymgynghoriad.
9. Bydd ymgynghoriad yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl, a gynhelir yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn ystyried costau trwyddedu a'r agwedd gydymffurfio. Mae Calvin Jones yntau wedi cynnig y cyngor a'r cymorth hwn wrth asesu'r manteision ehangach o gyd-destun strategol.

Diweddariad am Grantiau

10. Cyflwynwyd diweddariad am y cynnydd parthed archwilio modelau cyflawni amgen ar gyfer gweinyddu grantiau yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y Pwyllgor yn cael cynnig strategol ynghylch model cyflawni amgen yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Ebrill 2022.

Dull Llywodraethu'r Pwyllgor – Adolygiad Effeithiolrwydd Blynyddol

11. Trafododd y Pwyllgor y camau gweithredu drafft mewn ymateb i'r adborth a gafwyd yn sgil yr arolwg adolygu effeithiolrwydd, ac aeth ati i gynnig adborth cyffredinol ynglŷn â'r broses adolygu effeithiolrwydd.

Cyfarfodydd y dyfodol

12. Mae cyfarfod ychwanegol wedi'i drefnu ar gyfer 11 Mawrth 2022 er mwyn i'r Pwyllgor allu adolygu'r Cynllun Busnes drafft a'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23 a chymryd rhan mewn sesiwn a hwylusir yn allanol yn ymwneud â'r Cynllun Corfforaethol.

Papur y Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau
Cyfeirnod y Papur:	22-03-B06
Noddir y Papur gan:	Zoe Henderson - Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cyflwynir y Papur gan:	Zoe Henderson

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC) a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022.

Diweddariad

2. Croesawodd y PaRC y Pennaeth Datblygu Sefydliadol dros dro newydd i'r cyfarfod. Trafodwyd yr eitemau allweddol isod a rhoddwyd diweddariadau ar y gwaith rota a chyflog. Cymeradwywyd yr adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ac Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2020-2021 yn barod ar gyfer y Bwrdd. Rhoddodd y PaRC ei fewnbwn ar y Cynllun Corfforaethol newydd drwy sesiwn wedi'i hwyluso. Cafwyd diweddariad hefyd ar y rhaglen Adfywio/Adnewyddu.

Gwybodaeth Reoli / Diweddariad Lles, Iechyd a Diogelwch dros dro

3. Ystyriodd y PaRC yr Wybodaeth Reoli a oedd yn canolbwyntio ar y risg recriwtio. Trafododd y Pwyllgor yr anawsterau recriwtio presennol, gan gynnwys prinder cyffredinol ymgeiswyr a'r materion aciwt gyda'r setiau sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer rolau unigryw sy'n hanfodol i fusnes yn CNC.
4. Cyflwynwyd y Diweddariad Lles, Iechyd a Diogelwch Dros Dro i'r PaRC. Llongyfarchodd y Pwyllgor y tîm ar gyflawni Safon ISO45001 a thrafododd sut i ymdrin â chanfyddiadau'r Adroddiad. Ystyriodd y PaRC y materion ynghylch absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen a'r ffordd orau o fynd ati i adrodd ar y mater hwn er mwyn cael mewnwelediad o'r achosion straen.

Rheoli Perfformiad

5. Croesawodd y PaRC y dull newydd o Reoli Perfformiad yn CNC a fyddai'n mabwysiadu dull mwy seiliedig ar ddatblygu a blaenoriaethau yn hytrach na'r dull blaenorol a oedd yn seiliedig ar amcanion. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cysylltu â'r gwaith Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Diweddariad risg/gan gynnwys risg strategol o ran recriwtio ac adnoddau

6. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am risg a ddatblygodd yn ddiweddar mewn ymateb i'r broblem recriwtio ac adnoddau sy'n dod i'r amlwg. Trafododd y Pwyllgor yr archwiliad Cynllunio'r Gweithlu diweddaraf a gofynnodd a oedd y ddau yn gysylltiedig. Byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r staff sy'n aros ac yn gadael CNC i gael mewnwelediad ar sut i ddenu newydd-ddyfodiaid a phobl iau i'r sefydliad.

Adroddiad at Wraidd y Mater ar Absenoldebau oherwydd Iechyd Meddwl

7. Cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor a oedd yn tynnu sylw at yr elfennau allweddol o ran absenoldebau oherwydd iechyd meddwl a'r gwaith yr oedd CNC wedi'i wneud i helpu i gefnogi staff yn y maes hwn. Cynigiodd y Pwyllgor awgrymiadau ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â hyn.

Cynllunio ar gyfer Olyniaeth/ Rolau Hanfodol i Fusnes

8. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am waith CNC yn mynd i'r afael â materion ynghylch rolau sy'n hanfodol i fusnes yn y sefydliad. Roedd yr wybodaeth a gasglwyd gan y busnes wedi arwain at ddatblygu'r dull prawf yn y tîm Llifogydd i nodi'r rolau sy'n hanfodol i fusnes a nodwyd yn y papur. Bu'n llwyddiannus a byddai'n cael ei gyflwyno i dimau pellach. Pwysleisiodd y PaRC ymhellach yr angen i ddenu pobl iau i'r sefydliad.

Adolygiad Effeithiolrwydd Blynyddol y Pwyllgor Pobl a Thaliadau

9. Ystyriodd y PaRC yr adborth a gafwyd o'u Hadolygiad Effeithiolrwydd Blynyddol, a thrafodwyd ffyrdd o wella'r Pwyllgor.

Papur y Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC)
Cyfeirnod y Papur:	22-03-B07
Noddir y Papur gan:	Rosie Plummer – Cadeirydd PrAC
Cyflwynir y Papur gan:	Rosie Plummer

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn y cyfarfod PrAC a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022. Mae cofnodion y cyfarfod ar gael ar Diligent i holl aelodau'r Bwrdd sydd â diddordeb.
2. Yn sgil y cyfarfod, ac er mwyn rhoi diweddariad i'r Bwrdd, mae'r Cadeirydd yn darparu diweddariad ar bynciau trafod y Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw faterion sydd angen sylw penodol.

Diweddariad

Rhaglen Tirweddau Dynodedig Integredig

3. Rhoddwyd diweddariad i PrAC am y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Tirweddau Dynodedig Integredig:
4. Gan nodi nad oedd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith hwn gan CNC yn derfynol eto, cafodd PrAC ddiweddariad am y gwaith hyd yma. Mae cyfarfodydd anffurfiol wedi dechrau gyda'r Awdurdodau Lleol sydd wedi'u cynnwys yn yr Ardal Gwmpasu bosibl ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yn y Gogledd-ddwyrain, i esbonio'r broses a rhoi cyfle iddynt godi unrhyw bryderon cychwynol.
5. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor am faterion allweddol sy'n codi o gynigion Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn dilyn yr ymgynghoriad mewn ymateb i'r 'Landscapes Review' (Adroddiad Glover). Byddai'r cynigion mewn perthynas â newid deddfwriaethol yn darparu dibenion cyfreithiol cryfach ar gyfer tirweddau cenedlaethol a dibenion cryfach ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Trafododd PrAC y cyfleoedd i Gymru yn sgil moderneiddio deddfwriaeth, a'r cyfle i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur wrth reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

6. Adolygodd PrAC y Canllawiau Gweithdrefnol drafft: Dynodiadau Tirwedd Statudol. Bydd y canllawiau'n cael eu mireinio yn unol ag adborth gan y Pwyllgor ac eraill. Clywodd PrAC y bydd hyfforddiant ar eu cyfrifoldeb yn cael ei ddarparu i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gydol y broses. O'r herwydd, nodwyd yr angen i ymgysylltu'n gynnar â'r Ysgrifenyddiaeth ynghylch unrhyw ddyddiadau hyfforddi posibl.

Diweddariad targed byd-eang 30 x 30

7. Darparwyd diweddariad ar y targed o warchod a rheoli o leiaf 30% o ardaloedd tir a môr y byd yn effeithiol erbyn 2030, yn dilyn ymrwymiad y Cenhedloedd Unedig ac arweinwyr y byd. Gan fod Cymru wedi cyrraedd y targed morol, byddai trafodaethau'n canolbwyntio'n bennaf ar sut y gellir cyrraedd y targed ar y tir.

Rheoli Risg - Adroddiad at wraidd y mater ar Risg Strategol (RS) 05 (Hyrwyddo SMNR)

8. Mae gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o SR05 wedi'i ail-ddatblygu. Mae'r Risg hon bellach yn cynnwys canolbwyntio ar arweinyddiaeth yn ogystal â'r cyfleoedd i ddylanwadu ar eraill wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Fe wnaeth y Pwyllgor gynnig adborth ar y Risg hon yn ogystal â'r Datganiad Parodrwydd i dderbyn Risg a bydd yn parhau i adolygu'r SR05 o bryd i'w gilydd, wrth iddo barhau i ddatblygu.

Materion Monitro Safleoedd Gwarchodedig

9. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor am y problemau sy'n ymwneud â monitro safleoedd gwarchodedig oherwydd y cyfyngiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r model presennol. Cytunwyd y bydd angen penderfynu ar lefel a natur gwaith monitro Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â dyrannu adnoddau a sicrhau sgiliau ar gyfer hyn, wrth gamu ymlaen i sicrhau cynllun cadarn ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau monitro statudol ac anghenion gwybodaeth data ehangach Cyfoeth Naturiol Cymru. Cynigiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu hwyluso'r mater hwn a bydd yn trefnu cyfarfod gyda phobl allweddol, gan gynnwys defnyddio arbenigedd aelodau Bwrdd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, i fwrw ymlaen â'r mater hwn. Roedd PrAC o'r farn bod dyletswydd ar CNC i gyfleu'n glir i Lywodraeth Cymru y problemau adnoddau sy'n gysylltiedig â hyn.

Rhaglen Cyflawni Safleoedd Gwarchodedig

10. Nid oes unrhyw faterion i'w hadrodd gyda'r Rhaglen Cyflawni Safleoedd Gwarchodedig. Roedd carreg filltir Ch3 wedi'i chyflawni a rhagwelir y bydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar statws Gwyrdd. Bydd mesurau dangosfwrdd a cherrig milltir ar gyfer 2022/23 yn cael eu fframio gan raglen gyflawni a ariennir dan Rwydweithiau Natur, sy'n adlewyrchu blaenoriaeth y Gweinidog o ran gweithredu ar fioamrywiaeth. Disgrifir Rhwydweithiau Natur isod.

11. Rhaglen Rhwydweithiau Natur aml-flwyddyn 2022-2025

Mae Rhwydweithiau Natur yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag argyfwng natur y genedl. Y nod yw sicrhau bod rhwydweithiau ecolegol Cymru, gyda safleoedd gwarchodedig wrth eu craidd, ar dir a môr, yn cael eu cydnabod a'u rheoli'n ddigonol ac yn effeithiol mewn ffordd sy'n gwella eu gwydnwch. Mae'r rhwydweithiau

hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at wydnwch ecosystemau ehangach ac yn atal dirywiad bioamrywiaeth – gan ddod yn Natur Gadarnhaol erbyn 2030.

12. Mae Rhwydweithiau Natur yn cynnwys rhaglen tair blynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi partneriaid drwy Gronfa Sylfaen Treftadaeth Genedlaethol y Loteri a rhaglen gyflawni a ariennir yn benodol drwy CNC. Mae CNC wedi gwneud cais am tua £3.4m, gan godi i £7.4m ar gyfer y cyfnod 2022/23 - 2024-25 o dan raglen Rhwydweithiau Natur. Bydd y rhaglen hon yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn ariannol hon (2021/22) o dan raglen y Gronfa Cadernid Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (BERF) a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith o gynllunio rhaglenni wedi datblygu'n dda, ynghyd â'r dulliau llywodraethu, capasiti a mecanweithiau priodol, a fydd yn gweithio ochr yn ochr â gwaith a gynlluniwyd drwy raglenni cymorth grant blynyddol. Bydd y ffocws ar gyflawni, sy'n cynnwys elfennau'r tir a'r môr, ar:

13. Daearol a dŵr croyw

- Darnio cynefinoedd
- Pori (maint, math, amseru) ar gyfer nodweddion lled-naturiol iseldir e.e. glaswelltir, rhostir a ffen nad yw'n seiliedig ar fawn, morfa heli
- Dyddodion nitrogen atmosfferig
- Cyflwyno rhywogaethau goresgynnol estron (INNS)

14. Morol

- Rhywogaethau goresgynnol estron (INNS)
- More use of online increases efficiency and reduces unnecessary contact for NRW staff, freeing up time for other work.
- We can analyse and track how people use our services across platforms, and be able to measure usage of online and offline transactions

Mission 2: developing skills and capability

There is a significant need to develop the right skills and capacity to enable us to deliver a better public service for the people and environment of Wales.

Everyone will need to understand our customers and how digital, data and technology play a role in delivering services to our customers in the most efficient and effective way. For those working directly in a digital, data or technology role, we will need to continue to develop and maintain those specialist skills and we will need to develop more specialist skills in some key areas, for example user research, development, content design and data analytics.

Using and contributing to improving national frameworks for digital capability and skills will help enable transition and development of our staff.

We will

- develop digital leadership capability within Natural Resources Wales
- recognise the skills needed to understand our users, their needs, and what makes a good service
- align roles with the national framework for digital, data and technology
- work with CDPS, Welsh Government and other public bodies to share learning, work together and improve digital, data and technology skills
- develop existing staff with opportunity for on-the-job coaching and communities of practise
- build multi-disciplinary teams around services, coalescing existing teams and skills around services to fix shared problems and improve services.
- understand what is needed to develop a programme of digital, data and analytical apprenticeships, in partnership with other public sector bodies, where possible
- draw on national opportunities to build career pathways for our digital, technology and data team, ensuring we can retain, develop, and fulfil them
- Procure external expertise to support upskilling and fill skills gaps, especially in transition period

Intended outcomes of developing skills and capacity

- Our leadership understand that digital is not about technology, but about nurturing the right culture
- our leadership understand what's needed to lead teams and design good services
- the skills to deliver services based on user need and digital and data skills are valued
- our people feel confident in their knowledge and skills around the technology they need to do their jobs

- we can hire, retain, and develop the best talent locally and nationally

Mission 3 - integrated and sustainable platforms

Making sure that people can find, use, and navigate our services will mean that people will need to be able to travel seamlessly through services.

To do this, our website, Naturalresources.wales will be the single and trusted online destination for NRW information and to access services, although behind the scenes this may be composed of several components.

Fundamentally, this is about making sure we provide good services, but there is a financial and environmental cost to digital.

We'll need to look seriously at considering the role of digital in supporting the Welsh Government Net Zero goals.

By avoiding duplicating content and data on multiple platforms, and reducing the number of legacy platforms, we will provide a more joined up experience for people. We will have a more sustainable digital presence that is safer, easier to maintain and more resilient.

We will

- Review our current digital landscape, including platforms and technology currently used to support public services and the work of NRW – including carbon footprint of our whole digital estate.
- Avoid publishing information we do not need, to reduce the amount of server space – reducing costs and contributing to cutting carbon emissions.
- Make technology decisions based on user needs, following guidance in the Welsh Service Standards and the UK Tech Code of Practice.
- Sustainability is considered and measured at every stage of developing and managing digital services.
- Undertake a review of the Customer accounts and identification system to allow customers to self-serve where appropriate and to manage their own account preferences in line with GDPR
- Optimise customer data in NRW's Customer relationship management (CRM) system. The data not stored in NRW CRM will be determined by customer needs
- Start small – prioritise services for end-to-end redesign, involving all the right people and teams.
- Use shared platforms and components where possible. Put open standards and interoperability at the core of our IT strategy.

- Consider whole life costs of services, including ongoing support and improvement costs and structures and plan accordingly.

Intended outcomes of integrated and sustainable platforms

- We will be able to analyse and track how people use our services across platforms and be able to measure usage of online and offline transactions.
- the different systems, components and technical building blocks are joined-up and data is transferred seamlessly and safely
- sustainability is considered and measured at every stage of developing and managing digital services
- people can search by location (across different systems and platforms) to easily find the information they need related to that place
- easy to manage customer accounts – for the customer and NRW

Mission 4 – our teams have the tools and processes

By committing to adopting the digital standards for Wales, we will need to significantly change how we plan, prioritise, and develop our services.

The current way of planning, prioritising, funding, and managing projects and systems needs to shift to a model that will enable a single empowered service owner to have the authority and responsibility to make all business, product, and technical decisions about a service.

The same person is accountable and responsible for how well the service meets the needs of its users, which is how its success will be evaluated.

We'll need to have the right mix of skills and experience for the current stage of development, the team should be able to explain how the make-up of the team may change over time, and what funding will be needed to support a team responsible for the service's continuous improvement

We will

- Support multifunctional teams centred around service owners and gather around agreed priorities rather than organisational structures
- Adopt agile working practices when designing services for people so that we can iterate and improve based on feedback

- Work in the open and talk about our work, sharing experiences to engage users and build trust
- Adopt the most appropriate tools to help people to do their jobs and work to the standards, e.g., prototyping kit.
- Redesign delivery frameworks in support of working to the 12 standards and SMNR principles and develop clear prioritisation criteria for service improvement
- Review our ways of working to ensure they support agile delivery and working to the standards, e.g., finance and governance
- Where possible we will work in partnership with other organisations to share our work and create joined up once for Wales digital services

Intended outcomes of teams having the right tools and processes

- staff have access and can find and use the tools and information they need to do their work
- empowered multidisciplinary teams can manage services from end to end
- we use service manuals, prototyping tools, and design libraries (our own or shared) to enable easier and more efficient delivery.
- our people feel confident using modern technology, are aware of its risks and opportunities, and can fully participate in agile delivery and service design
- our systems and processes (e.g., finance and governance) support user-centred design and delivery
- teams work together to remove duplication and improve inter-linking of data and information

Mission 5 data and collaboration

NRW is the custodian of a large, complex, and unique collection of environmental data and information for and about the environment of Wales.

Our environmental evidence base informs and supports Wales' response to the climate and nature emergencies and provides a historical record of the environment in Wales.

Managing this vital evidence base and making data available to people in ways that meet their needs will help strengthen environmental decisions, improve the delivery of public our services, help business adapt to the future and enhance people's lives.

The Environment Wales Act and our response to the climate and nature emergencies call for our data to be analysed, interpreted, and presented at multiple spatial scales; to be

integrated to enable decisions that return multiple benefits and for greater sharing and collaboration.

We face significant growth in both the volume and complexity of our data holdings and the complexity of requirements, compounded with increasing demand for interpreted data 'products' over raw data. This Mission aims to respond to these requirements.

We will

- Provide data and information as interpreted outputs that are meaningful to our customers and meet people's needs.
- Give people a picture of the environment in the places that matter to them and provide an integrated view of our data to highlight multiple benefits for or about that place.
- Enable the automated flow and exchange of data and information between systems and those that need it.
- Develop our approach to digital preservation, and data and information archiving to create efficiencies, drive down costs and consider our carbon footprint for storage.
- Develop and implement an NRW approach to data ethics drawing on the Open Data Institute's Data Ethics Canvas.
- Support and develop innovation in our data management to improve services and create efficiencies. This could include AI, machine learning, data science, Internet of Things, data visualisation, where they support user needs.
- Link and share our data, using standard formats and structures and providing quality metrics. Build on our existing 'open by default policy', aiming for 4-5* open data standards to stimulate the information economy. We'll adopt the (Q)FAIR data principles (Quality, Findable, Accessible, Interoperable, Re-usable).

Intended outcomes of data and collaboration

- people can easily find data and information linked to the places that are relevant to them to support decisions and actions to help tackle the nature and climate emergencies
- people can glean insight, analyse, and make evidence-based decisions in ways that meet their needs
- we openly and seamlessly share data and information with people who need it, in ways that meet their needs, creating better outcomes for the environment and people of Wales

- our data and information are linked, and meets standards and industry best practice, so others can make best use of our evidence-base
- people trust that we are treating their data and information responsibly, handling it securely and using it ethically
- we preserve the historic record of the environment of Wales for future generations
- we take advantage of new technology that supports NRW to improve services and deliver efficiencies, including through increased use of automation and data science
- we consider our carbon footprint, how we can create efficiencies and drive down costs associated with the flow, processing and storage of our data and information

Conclusion

The hard work starts here.

This strategy sets out our ambition for improving our digital services and explains what we need to do – by ourselves and working with others – to achieve our vision.

There are hurdles and challenges to address as we move into delivery, which include:

- How can we finance and resource the transformation required?
- How do our governance procedures support a more agile approach and how do we plan around user needs?
- How do we build multi-functional teams around service/product owners?
- How do we develop the skills we need?
- How do we make our evidence accessible in the simplest ways for most users while allowing experts to dive into the detail?
- How do we get a balance between keeping going with projects already in motion versus working in a different way?

We will work through these challenges as we move into delivery, focusing on our ambition to create better services for the people of Wales, so that they can more easily work with us to deliver for the environment in Wales.

Papur Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y papur:	Rôl CNC o ran gwella diogelwch coedwigaeth y DU
Cyfeirnod y papur:	22-03-B14
Noddir y papur gan:	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Cyflwynir y papur gan:	Dom Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch
Diben y papur	Trafod
Argymhelliad	Gwahoddir y Bwrdd i drafod a myfyrio ar yr wybodaeth a'r dull a gyflwynir yn y papur hwn, ynghyd â nodi'r datganiad ategol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), a'r camau cyfredol ac arfaethedig y cytunodd y Tîm Gweithredol arnynt.

Mater

- Mae'r gyfradd ddamweiniau yn y sector coedwigaeth yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yn y DU ac nid yw'r gymhareb ar gyfer damweiniau a fu bron â digwydd i ddamweiniau yn newid. Diben y papur hwn yw cyflwyno gwybodaeth i hwyluso trafodaeth ynglŷn â rôl CNC fel corff coedwigaeth gwladwriaethol o ran gwella diogelwch yn sector coedwigaeth y DU.
- Mae'r HSE wedi cynorthwyo CNC i lunio'r papur hwn ac mae wedi cyflwyno'r datganiad canlynol i'w ategu.

“Mae'r papur hwn yn arbennig o berthnasol ar adeg pan ymddengys fod yna gynnydd mawr yn nifer y bobl a gaiff eu lladd wrth fynd i'r afael â gwaith coedwigaeth. Er mwyn delio â hyn mae'r papur yn nodi, yn gywir ddigon, bod angen canolbwyntio'n barhaus ar reoli risgiau a rôl yr holl bartïon mewn cadwyni contractiol, yn arbennig mewn meysydd pwysig fel gwella diwylliant, arweiniad ac


atebolrwydd, ac mae'n nodi sut mae CNC yn cynnig arweiniad ar y mater hwn ar hyn o bryd a sut mae'n bwriadu cynnig arweiniad yn y dyfodol."

Cefndir

Damweiniau angheuol diweddar

- Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn rhoi gwybod i aelodau AFAG (Grŵp Cynghori'r HSE ar Goedyddiaeth a Choedwigaeth) am weithwyr sydd, yn ôl pob tebyg, wedi cael eu lladd tra'n mynd i'r afael â gwaith coedwigaeth. Mae AFAG yn un o is-grwpiau [Pwyllgor Cynghori'r Diwydiant Amaethyddiaeth](#).
- Yn 2021/22 cafwyd 11 hysbysiad cychwynnol ynglŷn â marwolaethau. Yn amodol ar ymchwiliad llawn, mae deg o'r rhain yn gysylltiedig â phren (coed neu ganghennau) yn taro gweithredwyr llifiau cadwyn, neu'n syrthio arnynt. Digwyddodd dau ohonynt yng Nghymru.

Ystadegau Cyhoeddus yr HSE



- Y gyfradd anafiadau angheuol ar gyfer amaethyddiaeth yn cynnwys coedwigaeth yw 11.37 fesul 100,000 o weithwyr ar gyfer 2020/2021. Mae'r gyfradd hon yn uwch nag unrhyw brif sector diwydiant arall. Mae hi oddeutu chwe gwaith yn uwch na'r gyfradd yn y sector adeiladu ac 20 gwaith yn uwch na'r gyfradd ar gyfer 'pob diwydiant'.

Ystadegau CNC

6. Ers mis Mawrth 2014, cafwyd pedair o ddamweiniau angheuol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithrediadau coedwigaeth ar Ystad CNC, a digwyddodd tair ohonynt yn ystod gweithrediadau coedwigaeth gweithredol. Cafwyd 11 o farwolaethau eraill ar ein hystâd; roedd y rhain yn gysylltiedig â hamdden/anffawd. Ond nid ydym wedi cynnwys manylion am y marwolaethau hyn yn y papur hwn gan nad ydynt yn berthnasol i linyr y drafodaeth. Gweler y tabl isod.

Dyddiad Gwybodaeth

<i>MAWRTH 2014</i>	Safle gwerthu pren sy'n sefyll. Trawiad angheuol ar y galon tra'n cerdded ffiniau'r llannerch cyn mynd i'r afael â gwaith.
<i>AWST 2015</i>	Safle gwerthu pren sy'n sefyll. Cafodd gweithredwr llif gadwyn ei daro gan goeden yn ystod gweithrediadau cwmpo coed. Marwolaeth ddamweiniol ym marn y Crwner.
<i>AWST 2017</i>	Safle gwerthu pren sy'n sefyll. Cafodd gweithredwr llif gadwyn ei daro gan goeden yn ystod gweithrediadau cwmpo coed. Marwolaeth ddamweiniol ym marn y Crwner.
<i>HYDREF 2021</i>	Safle gwerthu pren sy'n sefyll. Gweithredwr llif gadwyn – mae'r heddlu a'r HSE yn dal i ymchwilio i'r digwyddiad.

Cytundeb Diogelwch y Diwydiant Coedwigaeth (FISA)

7. Yn 2012, daeth cynrychiolwyr o blith nifer o sefydliadau arweiniol yn y diwydiant ynghyd i sefydlu FISA.
8. Caiff FISA ei ariannu gan ei aelodau a'r Bwrdd a'i gynorthwyo gan Grŵp Llywio mawr. Mae'n cynnig ysgogiad a chyfeiriad strategol er mwyn gwella safonau iechyd, diogelwch a lles trwy'r diwydiant. Ymhellach, trwy gyfrwng hyfforddiant, mae FISA yn anelu at gynnal a gwella cymhwysedd y bobl sy'n gweithio ar bob lefel yn y diwydiant. Mae nifer o weithwyr coedwigaeth proffesiynol CNC yn aelodau o'r Bwrdd, y Grŵp Llywio a nifer o'r Gweithgorau.
9. Mae FISA yn gweithio gyda'r HSE a'r diwydiant i bennu a chyhoeddi safonau diogelwch a chanllawiau ar arferion diogel ar gyfer sectorau coedwigaeth a choedyddiaeth y DU. Mae hyn yn cynnwys prif ganllawiau'r diwydiant ar gyfer Rheoli Iechyd a Diogelwch mewn Coedwigaeth¹. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd gan nifer o rolau diffiniedig o safbwynt iechyd a diogelwch, yn yr un modd ag y mae'r Rheoliadau Adeiladu Dylunio a Rheoli (CDM)

¹ <https://ukfisa.com/Safety/Safety-Guides/fisa-guidance-on-managing-health-and-safety-in-forestry>

yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer y diwydiant adeiladu. Cyfeirir o dro i dro at yr ysgogiad mae'r dull rheoleiddio o dan CDM wedi'i gynnig o ran gwella'r sefyllfa mewn meysydd fel adeiladu. Ond dylid nodi bod dull FISA yn cynnig yr un mesurau diogelu a bod y ddau ddull yn sail i'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a'r Rheoliadau Rheoli, lle caiff y gofynion eu pennu'n glir.

10. Y nod yw sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y diwydiant yn cael gwybod beth yw eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran cynllunio a chynnal gwaith yn ddiogel, fel y gallant adnabod a derbyn cyfrifoldeb unigol a chyfrifoldeb ar y cyd dros gynllunio a chynnal gweithrediadau coedwigaeth mewn modd effeithiol, er mwyn osgoi risgiau sy'n annerbyniol i iechyd a diogelwch.
11. Mae Gweithgorau FISA yn cynnwys ymarferwyr gwybodus ac arbenigwyr mewn coedwigaeth. Mae'r ymarferwyr a'r arbenigwyr hyn yn gweithio mewn grwpiau sy'n canolbwyntio ar dasgau penodol er mwyn cynnig syniadau, atebion, arloesedd a chanllawiau. Ar sail eu gwaith, maent yn cyflwyno argymhellion i'r Grŵp Llywio. Trwy gyfrwng FISA a'r dull hwn o dan arweiniad y diwydiant, mae'r holl ddiwydiant yn cydnabod mai canllawiau FISA yw'r safonau diogelwch y dylai pawb eu dilyn.

Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithrediadau coedwigaeth

12. Y prif rolau sy'n angenrheidiol ar gyfer cynllunio a chynnal gweithrediadau coedwigaeth diogel yw 'Tirfeddiannwr', 'Rheolwr Gwaith Coedwigaeth' a 'Chontractwr'.
13. Yn unol â chanllawiau'r diwydiant, sef "Rheoli Iechyd a Diogelwch mewn Coedwigaeth", ar safle Gwerthu Pren sy'n Sefyll mae'r sawl sy'n prynu'r pren yn ysgwyddo cyfrifoldebau'r Rheolwr Gwaith Coedwigaeth o ran cyflogi contractwyr cymwys a hyfforddedig, o ran rheoli risgiau, ac o ran cynllunio, cynnal a goruchwyllo arferion gweithio diogel. Mae'r tair marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith coedwigaeth CNC, ac y cyfeirir atynt uchod, yn perthyn i'r categori hwn.
14. Ar safle Gwerthu Pren sy'n Sefyll, CNC yw'r 'Tirfeddiannwr', ac mae'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros y canlynol: sicrhau bod y Rheolwr Gwaith Coedwigaeth yn gymwys i reoli'r gwaith, darparu gwybodaeth ar y safle yn sôn am beryglon hysbys, cydgysylltu gweithgareddau mynediad a gweithgareddau eraill a allai effeithio ar y gwaith neu wrthdaro ag ef, a chydweithio â'r Rheolwr Gwaith Coedwigaeth ynglŷn â materion diogelwch.
15. Ar safle Cynhyrchu Uniongyrchol, mae CNC yn ysgwyddo rôl y Tirfeddiannwr a'r Rheolwr Gwaith Coedwigaeth, felly mae'n gyfrifol am bob agwedd ar gynllunio, cydgysylltu a chyflawni'r gwaith cynaeafu. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i CNC gynnal ei gymhwysedd ei hun, ac mae'n mynd i'r afael â hyn trwy ddarparu hyfforddiant, canllawiau gweithredol a systemau ar gyfer rheoli caffael a chontractau. Yna, mae'r sawl sy'n prynu'r pren yn gyfrifol am lwytho a chludo'r pren, er mwyn ei symud o ymyl ffordd y goedwig.

Yn ddiweddar iawn, aeth CNC ati i derfynu pob contract gydag un cwsmer ar ôl i'r cwsmer hwnnw gyfaddef ei fod wedi torri rheolau iechyd a diogelwch – dengys

hyn yn glir nad oedd y cwsmer yn gwybod digon am y ddeddfwriaeth ac nad oedd ganddo'r cymhwysedd i gyflawni rôl y Rheolwr Gwaith Coedwigaeth. Dyma ymateb llym, ond gellir ei gyfiawnhau ar sail y difaterwch a ddangoswyd tuag at ddiogelwch y cyhoedd a'r gweithredwr.

Safon Sicrhau Coetiroedd y DU (UKWAS)

16. Mae UKWAS yn pennu'r disgwyliadau a'r arferion sy'n angenrheidiol i fodloni Safon Goedwigaeth y DU o ran rheoli coedwigaeth mewn modd cynaliadwy a chyfrifol. Mae hyn yn cynnwys meini prawf sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r meini prawf hyn yn cwmpasu gofynion cyfreithiol, gofynion yr HSE a gofynion FISA mewn perthynas â chynllunio ar gyfer diogelwch a rhoi arferion diogel ar waith. Caiff CNC ei archwilio'n annibynnol yn erbyn UKWAS i achredu ein hardystiad gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC) i gynhyrchu pren cynaliadwy.

Mae cadw at safonau UKWAS yn cynnig dull gwelliant parhaus a ysgogir yn allanol i CNC. Mae'n cynnwys materion iechyd a diogelwch, er na chaiff y safon iechyd a diogelwch mo'i chydabod na'i hasesu.

Camau cyfredol CNC

17. Cyn y farwolaeth ddiweddaraf ar Ystad CNC, roedd CNC eisoes yn hollol ymwybodol o iechyd a diogelwch mewn coedwigaeth ac roedd yn ymhél yn llwyr â'r maes, oherwydd mae Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn rhan fawr o'n gweithrediadau. Fel un o'r sefydliadau allweddol yn sector cyhoeddus Cymru, mae gan CNC rôl bwysig yn FISA a thrwy'r holl ddiwydiant yng Nghymru trwy gymhwyso safonau at y modd yr awn ati i reoli gwerthiant a chontractau gwasanaeth.

Ym mis Rhagfyr 2021, enillodd CNC gofrestrriad ISO 45001 : 2018, y System Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol. Bydd hyn yn cynnig rhagor o dystiolaeth uniongyrchol o'r safonau a gyflawnir gennym ledled ein meysydd busnes, yn cynnwys coedwigaeth.

18. Eisoes, mae gan CNC rôl arweiniol o ran iechyd a diogelwch yn y maes coedwigaeth mewn nifer o ryngweithiadau parhaus. Mae'n werth nodi bod nifer o weithredwyr coedwigaeth ar flaen y gad yn hyn o beth, ac fel aelodau o FISA maent hwythau hefyd yn arwain y diwydiant mewn sawl maes – trwy gael eu hysgogi gan broffesiynoldeb a'r gydnabyddiaeth fasnachol fod prosesau diogelwch rhagorol yn gryfder corfforaethol, maent yn dal gafael ar sgiliau ac yn esgor ar effeithlonrwydd, ac maent yn llawer llai costus na methu. Fodd bynnag, nid dyma'r sefyllfa gyffredinol, ac fel tîr feddiannwr mae CNC yn dod ar draws sbectrwm perfformio eang ymhlith ei gwsmeriaid a'r rhai sy'n gweithio i'r cwsmeriaid hynny. O'r herwydd, mae gweithdrefnau CNC wedi datblygu mewn modd sy'n ein galluogi i ddelio'n effeithiol â phegwn mwyaf peryglus y sbectrwm – rhywbeth a all, o dro i dro, arwain at ailadrodd prosesau neu ymdeimlad o ddrwgdybiaeth ac ymyrraeth yn y pegwn uwch. Wrth

symud ymlaen, efallai y dylai CNC ystyried ffyrdd gwell o ymateb i'r sbectrwm hwn er mwyn lleihau risgiau posibl i'n henw da.

Diwrnodau Cyswllt gyda Chwsmeriaid a Chontractwyr

19. Mae CNC yn cynnal neu'n cyfrannu at nifer o ddiwyddiadau cyswllt er mwyn ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n contractwyr ynglŷn â materion Lles, Iechyd a Diogelwch, a hefyd er mwyn rhannu adborth a phrofiadau. Mae hyn yn cynnwys cynnal diwrnodau a drefnir gan FISA lle canolbwyntir ar ddiogelwch, ynghyd â chaniatáu i ddarparwyr hyfforddiant coedwigaeth ddefnyddio Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i gynnal cyrsiau. Mae gan CNC berthynas wych gyda'r Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Confor), Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF) a FISA, ac mae'n gweithio i ddatblygu mentrau diogelwch ac erthyglau i'w cyhoeddi.

Enghraifft ddiweddar yw'r modd y datblygodd CNC adroddiad 'Damweiniau a Fu Bron â Digwydd'. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei drosglwyddo erbyn hyn i Confor fel y gellir ei rannu gyda'r holl ddiwydiant trwy gyfrwng MS Forms er mwyn helpu i wella prosesau adrodd cwmnïau llai nad oes ganddynt adnoddau corfforaethol y tu cefn iddynt i wneud hyn eu hunain.

Dylanwad Proffesiynol

20. Mae Paul Johnson wedi ymgysylltu â Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF) er mwyn diweddarau'r dull o fynegi cymhwysedd proffesiynol ar gyfer Coedwigwyr Siartredig sydd eisiau rhoi blaenoriaeth i ystyriaethau iechyd a diogelwch mewn unrhyw gyngor a roddir i gleientiaid ac wrth gynllunio gwaith coedwigaeth, yn cynnwys cyllidebu ar gyfer gweithio mewn ffordd fwy diogel. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu hefyd yn arholiadau'r aelodau ac mewn mesurau dethol.

Cymorth gan FISA

21. Mae Matthew Whitehead, aelod o dîm Masnachol CNC, yn aelod o Fwrdd FISA. Mae Dominic Driver yn cynrychioli CNC yng Ngrŵp Llywio FISA ac mae Paul Johnston yn cynrychioli'r ICF. Ymhellach, mae nifer o staff CNC yn cyfrannu at un o Weithgorau FISA.

22. Mae gan CNC rôl arweiniol mewn dwy fenter allweddol a gynhelir gan FISA:

- Mae CNC wedi rhannu adroddiadau diweddar yn ymwneud ag adolygu damweiniau difrifol ar draws y Cytundeb, ac yn ystod cyfarfodydd y grŵp llywio aethom ati i gyflwyno gwybodaeth systematig am dueddiadau yn y digwyddiadau a welwn.
- Dull 'cymhwysedd' o ymdrin â diogelwch wrth ddefnyddio llif gadwyn: Mae CNC wrthi'n datblygu proses beilot ar gyfer dull arbennig lle defnyddir Ap i gofnodi profiad a chymhwysedd. Mae cydnabod cymhwysedd a phroffesiynoldeb

cynyddol gweithredwyr llifiau cadwyn yn cynnig sail ar gyfer tâl gwell, ac felly gellir canolbwyntio ar y prif grŵp risg. [Gweler y fideo.](#)

Telerau ac Amodau Contractau Gwerthu Pren

23. Mae Telerau ac Amodau Contractau Gwerthu Pren wedi cael eu diweddarau er mwyn dangos yn gliriach bod angen i'r holl waith fodloni safonau cyfreithiol, safonau UKWAS a safonau FISA mewn perthynas â materion yn ymwneud â diogelwch, yn cynnwys perfformiad rheolwyr a goruchwylwyr cwsmeriaid. Daw'r Telerau a'r Amodau hyn i rym ym mis Ebrill 2022. Eisoes, mae'r Tîm Gwerthu wedi cyflwyno hyfforddiant i reolwyr contractau er mwyn cynorthwyo CNC i ymyrryd yn syth ac mewn modd effeithiol â thor contractau, yn cynnwys materion yn ymwneud â diogelwch.

Erbyn hyn, ceir darpariaeth glir yng nghontractau gwerthu pren CNC ar gyfer ategu newid a chyfrannu at gostau ychwanegol rhesymol sy'n gysylltiedig ag arferion gweithio mwy diogel a ddaw'n angenrheidiol oherwydd amgylchiadau anochel neu annisgwyl. Bydd angen adlewyrchu hyn trwy newid y Safonau Llywodraethu Gwerthiant Pren, oherwydd nid yw'r Safonau'n ategu hyn yn dda iawn ar hyn o bryd.

Cyn-gymhwyso ar gyfer contractwyr

24. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu staff a phawb arall a ddaw i gysylltiad â gwaith CNC, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Mae hyn yn cynnwys contractwyr sy'n mynd i'r afael â gwaith ar ran CNC a chwsmeriaid pren sy'n mynd i'r afael â'u gwaith eu hunain ar dir CNC.

25. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob sefydliad ddewis cwmni cymwys i fynd i'r afael â'r gwaith. Wrth gaffael contractwyr, mae'n ofynnol asesu cymhwysedd y contractwyr er mwyn i CNC allu cyflwyno tystiolaeth ddilysadwy ei fod wedi bodloni'r gyfraith yn hyn o beth.

Mae CNC yn treialu system gymhwysedd newydd FISA ar gyfer gweithredwyr llifiau cadwyn yng Nghymru. Dyma enghraifft o'n dull arweiniol o ddatblygu'r agwedd hon ar ein gwaith. Caiff y system ei rheoli trwy gyfrwng Ap ffôn, ac mae'n caniatáu i weithredwyr ddangos y cynnydd a wnânt o ran eu profiad a'u sgiliau, o'u cyfnod hyfforddi hyd at gymhwyseddau uwch y gellir eu dilysu.

26. Ymhellach, mae CNC wedi creu holiadur asesu cyn-gymhwyso ar gyfer cwsmeriaid sy'n dymuno gwneud cais i brynu pren. Cyn y gellir dechrau gweithio ar y safle, mae CNC yn cadarnhau ymhellach fod gan y cwsmer systemau iechyd a diogelwch cadarn ar waith a bod ganddo'r wybodaeth a'r cyfarpar angenrheidiol i gynllunio a chyflawni'r gwaith tra'n rheoli'r risgiau iechyd a diogelwch.

Camau pellach gan y Tîm Gweithredol – i'w hystyried

27. Dylai camau pellach ganolbwyntio ar ddatblygu 'diwylliant diogelwch' gwell a fydd yn gwbl sylfaenol i'r modd y byddwn yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithredu, ac i'r hyn a ddywedwn. Awgrymir y dylid cael strategaeth a fydd yn ymgorffori nifer o dulliau cymhwysedd, dulliau cyfathrebu a dulliau cydweithredu – sef dulliau a fydd, gyda'i gilydd, yn meithrin ac yn siapio diwylliant diogelwch gwell.

- Byddwn yn gweithio gyda FISA a chyrrff coedwigaeth gwladwriaethol eraill yn y DU er mwyn sicrhau dull cyson o ran cyfathrebu, pennu blaenoriaethau a dysgu ar y cyd yn y maes hwn.
- Gyda Confor, byddwn yn gwella ein dull o ymdrin â Chyswllt Cwsmeriaid ac yn ystyried ymgysylltu'n amlach ac yn fwy uniongyrchol, mewn ychwaneg o leoedd, er mwyn esgor ar ddeialog ynglŷn â diogelwch gweithredol, a byddwn yn helpu i gryfhau llais gweithredwyr ar lawr gwlad a chontractwyr coedwigaeth llai eu maint yng Nghymru, ynghyd â sicrhau gwell cynrychiolaeth ar eu cyfer.
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant pellach a gwell eglurhad i staff Gweithrediadau Coedwigaeth er mwyn eu helpu i fynd ati'n hyderus i gymhwyso'r dyletswyddau, y rolau a'r cyfrifoldebau a nodir yng Nghannllawiau FISA ar Reoli Iechyd a Diogelwch mewn Coedwigaeth at eu gwaith.
- Byddwn yn datblygu deialog bellach a pharhaus gyda'n staff er mwyn meithrin eu hyder i fynnu mesurau rheoli diogelwch effeithiol bob amser, ac i ymyrryd er mwyn rhoi stop ar waith anniogel.
- Byddwn yn adolygu gweithdrefnau ac yn datblygu canllawiau newydd ar gyfer ein staff fel y bydd modd iddynt adrodd mewn dull cyson am ymyriadau cadarnhaol a damweiniau a fu bron â digwydd.
- Byddwn yn datblygu ein deialog a'n negeseuon ar gyfer cwsmeriaid a chontractwyr er mwyn codi disgwyliadau a gwella ymwybyddiaeth. Byddwn yn cymryd rhan uniongyrchol yng Ngweithgor Gweithrediadau Risg Uchel FISA, o dan arweiniad Jason Liggins (Forestry and Land Scotland).
- Byddwn yn datblygu proses ar gyfer monitro AssessNet yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwell eglurder, a byddwn yn sefydlu dull rheolaidd a chyflymach o ddsbarthu'r 'gwersi a ddysgwyd' yn sgil digwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd.
- Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o gynnwys diogelwch yn y pris a dalwn am waith a'r pris a delir am bren, er mwyn inni allu ymestyn ein rôl a'n trwyddedau awdurdod.
- Byddwn yn ystyried sut gallwn gryfhau gofynion diogelwch wrth ddatblygu Dulliau Amgen o Werthu Pren y darperir ar eu cyfer yn y Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren. Gall hyn newid.

- Byddwn yn diweddarau'r Telerau a'r Amodau ar gyfer gwerthu pren er mwyn darparu'n benodol ar gyfer sefyllfaoedd pan fo'n ofynnol cyflwyno newidiadau angenrheidiol i arferion gweithio diogel, mewn ymateb i newidiadau annisgwyl yn yr amodau gweithio disgwylidig.

Crynodeb

28. Diben y papur hwn yw hwyluso trafodaeth ymhlith Bwrdd CNC ynglŷn â'r hyn mae'r Tîm Gweithredol yn ei wneud, ac yn bwriadu ei wneud, i gynyddu presenoldeb CNC o ran arwain materion yn ymwneud â diogelwch yn sector coedwigaeth y DU ac, wrth gwrs, yma yng Nghymru.
29. Mae'r digwyddiadau a'r marwolaethau hynny yn y maes coedwigaeth ymhlith y rhai sy'n gweithio i'n cwsmeriaid pren yn destun pryder mawr i CNC a'r diwydiant coedwigaeth ehangach. Er mai ein cwsmeriaid neu eu contractwyr a oedd yn rheoli'r safleoedd lle digwyddodd y marwolaethau, mae CNC yn dal i fod yn atebol o ran ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau pwysig fel tîrffediannwr, ac mae ein harweiniad yn allweddol.
30. Wrth drafod hyn gyda chydweithwyr o'r HSE, gwelsom pa mor bwysig yw arweiniad yn yr ymdrech i wella perfformiad yn y sector adeiladu. Ar ôl ystyried yr holl opsiynau, rydym o'r farn y dylai CNC, fel corff coedwigaeth gwladwriaethol ac elfen bwysig o'r diwydiant coedwigaeth domestig, arwain trwy esiampl o fewn ein gweithrediadau ein hunain a cheisio rhagor o gyfleoedd i ymgymryd â rôl arwain arwyddocaol fel un o gyrff coedwigaeth cyhoeddus y DU ac aelod o FISA.
31. Elfen bwysig o hyn fydd datblygu cymhwysedd ein staff ein hunain a meithrin eu hyder i weithredu'n unol â rolau a chyfrifoldebau penodedig FISA. Ochr yn ochr â hyn, bydd angen cynyddu'r ddeialog sylfaenol gyda'r sector er mwyn gwella ymwybyddiaeth, pennu disgwyliadau a chryfhau'r ymrwymiad.
32. Ar ôl ystyried yr uchod i gyd, y flaenoriaeth yn ein tyb ni yw sicrhau bod CNC yn parhau i weithio gyda FISA fel y bydd modd i'r canllawiau a'r rhwydwaith gynorthwyo'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf i weithio yn y ffordd fwyaf diogel, ynghyd â mynd i'r afael â'r gweithgareddau mwy peryglus mewn ffyrdd saffach. Y meysydd allweddol y dylid ymhél â nhw ar hyn o bryd yw gwella cymhwysedd gweithredwyr llifiau cadwyn a Rheolwyr Gwaith Coedwigaeth, a meithrin diwylliant diogelwch gwell a mwy cydweithredol ym mhob rhan o'n gwaith a thrwy'r holl ddiwydiant yng Nghymru.
33. Bydd CNC yn parhau i weithio gyda chyrff coedwigaeth gwladwriaethol eraill; wedyn, bydd modd rhannu'r cynnydd a'r hyn a ddysgir yng Nghymru gyda chyrff eraill, a *vice versa*.
34. Dylai CNC geisio gwella'r modd y caiff canllawiau FISA eu deall a'u cymhwyso at waith coedwigaeth yng Nghymru, gan arwain at ddisgwyliadau uwch mewn

perthynas â 'dim niwed', ynghyd â gwell dealltwriaeth o ragoriaeth wrth gynllunio gwaith, mwy o alw am gydweithio, a gwell cydnabyddiaeth o werth gweithgarwch cymwys a diogel yn y goedwig.

Argymhelliad

35. Gwahoddir y Bwrdd i drafod a myfyrio ar yr wybodaeth a'r dull a gyflwynir yn y papur hwn, ynghyd â nodi'r datganiad ategol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), a'r camau cyfredol ac arfaethedig y cytunodd y Tîm Gweithredol arnynt.

Papur Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y papur:	Adolygiad o ddull CNC o reoleiddio saethu a thrapio Adar Gwyllt: Trwyddedau Cyffredinol
Cyfeirnod y papur:	22-03-B15
Noddir y papur gan:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol, Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynir y papur gan:	Sarah Wood, Rheolwr Bioamrywiaeth a Gwynwch Ecosystemau Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu
Diben y papur:	Craffu / penderfynu
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Cymeradwyo'r dull arfaethedig o gyflwyno trwyddedau cyffredinol• Cymeradwyo'r camau nesaf arfaethedig

Mater

1. Caiff pob aderyn gwyllt yng Nghymru ei ddiogelu gan y gyfraith. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) nifer o bwerau sy'n ein galluogi i awdurdodi eraill i ladd neu gymryd rhywogaethau penodol o adar gwyllt, eu hwyau a'u nythod at ddibenion arbennig, er enghraifft er mwyn atal difrod difrifol i gnydau, da byw neu bysgodfeydd, er mwyn diogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd neu er mwyn gwarchod rhywogaethau bywyd gwyllt eraill. Rydym wedi bod wrthi'n cynnal adolygiad o'r modd y rhoddwn y pwerau hyn ar waith er mwyn ceisio cyflwyno gwelliannau.

Cefndir

2. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn darparu fframwaith cyfreithiol yng Nghymru ar gyfer diogelu adar gwyllt, eu hwyau a'u nythod, a hefyd mae'n sefydlu'r

fframwaith y gall CNC ei ddefnyddio i gyflwyno trwyddedau er mwyn caniatáu i eraill ladd neu gymryd adar gwyllt.

3. Etifeddwyd y swyddogaeth drwyddedu hon gan Lywodraeth Cymru a chyrrff etifeddol CNC, a hyd 2019 ni fu'n destun unrhyw adolygiad ffurfiol. Ar hyn o bryd, rydym yn cyflwyno dau fath o drwydded, sef: trwyddedau cyffredinol a thrwyddedau penodol. Caiff trwyddedau cyffredinol eu cyflwyno'n flynyddol trwy gyfrwng ein gwefan ac maent yn caniatáu i amrywiaeth o bobl awdurdodedig, yn cynnwys unrhyw dirfeddiannwr yng Nghymru, ladd neu gymryd adar, yn ddarostyngedig i delerau ac amodau diffiniedig. Yn achos trwyddedau penodol, rhaid cyflwyno ceisiadau i CNC a bydd CNC yn gwneud penderfyniad yn eu cylch fesul un.
4. Yn 2019 cynhaliwyd adolygiad cyflym a arweiniodd at rai newidiadau sylweddol yn nifer o'n trwyddedau cyffredinol. Mesur interim oedd y newidiadau hyn, yn dilyn her gyfreithiol yn erbyn trwyddedau tebyg yn Lloegr. Ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad cyflym a gynhaliwyd yn 2019, yn ogystal â chyhoeddi trwyddedau cyffredinol diwygiedig fe wnaethom ymrwmo i gynnal adolygiad mwy cynhwysfawr o'n dull cyfan o reoleiddio mesurau angheuol i reoli adar gwyllt a dinistrio wyau a nythod, ynghyd ag ymrwmo i gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus.

Asesu

Prif elfennau'r adolygiad a gynhaliwyd ar ddull CNC o reoleiddio saethu a thrapio Adar Gwyllt

5. **Y dull cyffredinol.** Cynhaliwyd yr adolygiad gan staff CNC, ond elfen bwysig o'r adolygiad fu casglu tystiolaeth a phrofi ein syniadau a'n cynigion trwy ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid allanol, yn cynnwys cynnal ymgynghoriad ffurfiol. Rydym wedi ystyried y dulliau trwyddedu a roddir ar waith mewn rhannau eraill o'r DU mewn perthynas â rheoli adar gwyllt, a hefyd aethom ati i gynnal cyfarfodydd rheolaidd ag awdurdodau trwyddedu eraill y DU, ynghyd â Llywodraeth Cymru. Ymhellach, cynhaliwyd nifer o drafodaethau anffurfiol gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru er mwyn rhannu, profi a datblygu ein syniadau.
6. **Galw am dystiolaeth.** Rhwng Rhagfyr 2020 ac Ionawr 2021 fe wnaethom gyhoeddi galwad am dystiolaeth.
7. **Ymgynghoriad cyhoeddus.** Aethom ati i ddatblygu cyfres o gynigion. Cafodd y cynigion hyn, ynghyd ag ambell gwestiwn agored, eu cynnwys mewn ymgynghoriad cyhoeddus. Bu'r ymgynghoriad ar waith am 12 wythnos, rhwng 19 Awst ac 11 Tachwedd 2021. Derbyniwyd 621 o ymatebion, yn cynnwys sylwadau manwl gan randdeiliaid allweddol.
8. **Her gyfreithiol yn erbyn trwyddedau cyffredinol CNC.** Yn ystod yr adolygiad, cynhaliwyd Adolygiad Barnwrol ar dair trwydded gyffredinol (GL001, GL002 a GL004) lle'r honnwyd bod CNC, yn sgil y ffaith ei fod wedi cyflwyno'r trwyddedau, wedi methu â chydymffurfio â nifer o ofynion statudol. Aethom ati i amddiffyn yr her, ac fe fethodd yr her ar bob sail. Ym mis Ionawr 2021, dyfarnodd yr Uchel Lys fod y tair trwydded yn gyfreithlon.

9. **Tystiolaeth ac arolwg a gomisiynwyd.** Fe wnaethom gomisiynu nifer o adroddiadau tystiolaeth a dadansoddiadau mewnol i lywio'r gwerthusiad o'n dulliau cyfredol a'r gwaith o ddatblygu cynigion.
10. **Parhad y gwasanaeth.** Rydym wedi parhau i ddarparu ein gwasanaeth trwyddedu yn ystod yr adolygiad. Nid ydym wedi cyflwyno unrhyw newidiadau i'n dull ac ni fyddwn yn gwneud hynny hyd nes y daw'r adolygiad i ben.
11. **Ymholiadau ac ymgyrchoedd.** Rydym wedi ymateb i ymholiadau'n ymwneud â thrwyddedu mesurau i reoli adar gwyllt a chwmpas a natur yr adolygiad. Hefyd, rydym wedi delio ag ymgyrch e-bost yn dilyn yr her gyfreithiol aflwyddiannus, gan ymateb i fwy na 1,000 o e-byst gan y cyhoedd.
12. Gellir dod o hyd i adroddiadau'n ymwneud ag adolygiad 2019, yr alwad am dystiolaeth a'r ymgynghoriad cyhoeddus ar waelod tudalen ymgynghori allanol yr Adolygiad Adar Gwyllt [YMA](#) .

Crynodeb

13. Ar gyfer ein trwyddedau cyffredinol, mae rhan helaeth o'r dull y bwriadwn ei roi ar waith yn y dyfodol yn ymwneud ag adeiladu ymhellach ar y newidiadau sylweddol a wnaed yn dilyn yr adolygiad cyflym a gynhaliwyd yn 2019. Yr adeg honno, er ein bod wedi cynnal ambell drafodaeth gyda rhanddeiliaid, nid aethom ati i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â'r newidiadau. Erbyn hyn, rydym wedi llwyddo i amddiffyn y trwyddedau mewn Adolygiad Barnwrol, ynghyd â phrofi'r newidiadau hynny a chynigion eraill, trwy gynnal adolygiad pellach ar y sylfaen dystiolaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus.
14. I grynhoi, cynigiwn y dylid cadw'r trwyddedau cyffredinol fel rhan o becyn rheoleiddio CNC, ond y dylid ystyried yn fwy gofalus pryd a ble i'w defnyddio.

Argymhelliad

15. Isod ceir crynodeb o ganlyniad ein hadolygiad. Canolbwyntir ar ble yr argymhellwn y dylid parhau â'n dull cyfredol o ymdrin â thrwyddedau cyffredinol, sy'n cynnwys y newidiadau a wnaed yn 2019, a ble rydym yn awyddus i gyflwyno rhagor o welliannau. Caiff yr argymhellion a'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r trwyddedau cyffredinol o dan sylw eu nodi'n fanylach yn Atodiad A.
16. **Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:**
- **Cymeradwyo'r dull arfaethedig o gyflwyno trwyddedau cyffredinol.**
 - **Cymeradwyo'r camau nesaf arfaethedig.**

Ein dull cyffredinol o gyflwyno trwyddedau cyffredinol

17. **Parhau â'n dull.** Byddwn yn parhau i ddefnyddio trwyddedau cyffredinol fel rhan o'n pecyn rheoleiddio a byddwn yn parhau i'w cyflwyno'n flynyddol, gan sicrhau ein bod yn rhoi'r diweddaraf i randdeiliaid allweddol ymlaen llaw.

18. **Newid ein dull.** Bydd ein dull o gyflwyno trwyddedau cyffredinol yn cael ei arwain gan gyfres o egwyddorion lefel uchel ar gyfer penderfynu ym mha sefyllfaoedd y bydd hi'n briodol inni gyflwyno trwydded gyffredinol a fydd yn caniatáu i eraill ddefnyddio mesurau angheuol i reoli adar gwyllt, yn hytrach na bod angen gwneud cais am drwyddedau penodol. Byddwn yn sefydlu proses adolygu ffurfiol ar gyfer trwyddedau cyffredinol; bydd y broses adolygu'n cael ei chynnal bob chwe blynedd a bydd yn cael eu hategu gan banel cynghori annibynnol a fydd yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Sut caiff trwyddedau cyffredinol eu defnyddio

19. **Parhau â'n dull.** Byddwn yn parhau i gyflwyno trwyddedau cyffredinol, ond dim ond pan fo dull rheoleiddio llai manwl yn briodol – er enghraifft, mewn sefyllfaoedd cyffredin ac isel eu risg, pan fo'r angen i ddefnyddio mesurau rheoli angheuol wedi hen ennill ei blwyf. Nid ydym yn bwriadu gofyn i ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol gofrestru neu lunio adroddiadau ar gyfer CNC.

20. **Newid ein dull.** Cyn i ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol fynd i'r afael â mesurau angheuol i reoli adar gwyllt o dan drwydded gyffredinol, byddwn yn eu hysbysu y dylent gymryd camau rhesymol i ymdrin â'r broblem trwy ddefnyddio dulliau nad ydynt yn angheuol, ac y dylent barhau i gymryd camau o'r fath. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ganllawiau. Ymhellach, byddwn yn rhoi gwybod i'r defnyddwyr y dylent gadw cofnod o'r hyn a wnânt a chael caniatâd y tiffeddiannwr yn ysgrifenedig.

Rhywogaethau a dargedir mewn trwyddedau cyffredinol

21. **Parhau â'n dull.** Rydym o'r farn na ddylid defnyddio mesurau angheuol i reoli unrhyw aderyn gwyllt sydd o bryder cadwraethol o dan drwyddedau cyffredinol, ac rydym o'r farn y dylid cael trwydded benodol i reoli rhywogaethau o'r fath â mesurau angheuol at unrhyw ddiben.

22. **Newid ein dull.** Ni fyddwn yn cynnwys unrhyw rywogaeth ychwanegol mewn unrhyw drwydded gyffredinol ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i adolygu cwmpas ein trwyddedau cyffredinol.

Trwyddedau cyffredinol a safleoedd gwarchodedig

23. **Parhau â'n dull.** Byddwn yn parhau â'n dull o eithrio Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o gwmpas ein trwyddedau cyffredinol – h.y. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd wedi'u dynodi ar sail rhywogaethau a all fod yn sensitif i unrhyw amhariad yn sgil gweithgareddau a drwyddedir. Dylai unrhyw ddulliau angheuol o reoli adar gwyllt ar safleoedd o'r fath ddigwydd o dan drwyddedau penodol.

24. **Newid ein dull.** Yn 2019 fe wnaethom adolygu ein dull o bennu safleoedd gwarchodedig a allai fod yn sensitif ac rydym wedi lleihau'n sylweddol nifer y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig lle na ellir defnyddio trwyddedau cyffredinol – o 198 o 141.

Dulliau angheuol a ddefnyddir i reoli bywyd gwylt

25. **Parhau â'n dull.** Byddwn yn parhau i ganiatáu'r arfer o ddefnyddio o arfau lled-awtomatig, trapiau cawell ac, mewn rhai amgylchiadau, rhwydi llaw a goleuadau artiffisial.
26. **Newid ein dull.** Oni bai bod rhesymau da i'w cael, ni fyddwn yn caniatáu'r arfer o ddefnyddio unrhyw ddulliau angheuol a waherddir o dan adran 5 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981. Byddwn yn caniatáu'r arfer o ddefnyddio unrhyw ddulliau nad ydynt wedi'u gwahardd, oni bai bod rhesymau da i'w cael dros beidio ag awdurdodi dulliau o'r fath.

Defnyddio trapiau cawell i reoli adar gwylt

